Bwletin y Cyflogwr

Eich llwybr i'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gyflogres Medi 2011 Rhifyn 39

Cyllid & Tollau EM

Cysylltu â CThEM

Croeso

Helo a chroeso i rifyn llawn arall o Fwletin y Cyflogwr, sydd yn cynnwys llawer o awgrymiadau defnyddiol a nodiadau atgoffa i'ch cynorthwyo i fodloni eich ymrwymiadau cyflogres i CThEM.

Mae'n ben-blwydd cyntaf ar y cynllun Gwyliau CEG ym mis Medi, cynllun a lansiwyd er mwyn cynorthwyo busnesau newydd gymwys yn ystod eu blwyddyn gyntaf o fasnachu. Bwriwch olwg ar yr erthygl ar dudalennau 4 a 5 am fwy o wybodaeth.

Mae llawer o wybodaeth hefyd ynglŷn â thalu CThEM yn y rhifyn hwn gan gynnwys nodyn atgoffa ar dudalen 11 os oes gennych Gytundeb Setliad TWE mewn lle ac ar dudalen 12, ychydig o wybodaeth newydd ynglŷn â chasglu dyledion treth drwy godau TWE.

Mae newidiadau ar y gweill i gynlluniau Pensiwn penodol a phensiynau'r gweithle yn gyffredinol. Mae'n bosib y byddwch am wirio'r wybodaeth yn yr erthyglau ar dudalennau 13 a 15.

Mae erthygl ar dudalen 29 ynglŷn â Chanfyddwr Contractau a fydd o bosib o ddiddordeb i chi; mae hwn yn wasanaeth rhad ac am ddim ar gyfer busnesau, sy'n caniatáu mynediad i gyfleoedd caffael sector gyhoeddus.

Peidiwch anghofio ymrestru ar gyfer ein gwasanaeth e-byst hysbysu rhad ac am ddim. Ewch i www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm a dilyn y cyfarwyddiadau. Gallwn eich hysbysu pan fydd y fersiwn diweddaraf o Fwletin y Cyflogwr ar gael, a phan gaiff cynnyrch TWE eraill eu diweddaru ar-lein. Cofiwch nad yw cofrestru i gyflwyno ar-lein yn golygu eich bod wedi cofrestru'n ogystal i dderbyn yr hysbysiadau e-bost. Mae'n rhaid i chi wneud hynny ar wahân, gan ddefnyddio'r cysylltiad a ddangosir.

Yn olaf, os oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â fformat neu gynnwys y Bwletin, ac os oes rhywbeth penodol yr hoffech weld wedi ei gynnwys, cysylltwch â mi ar Alison.bainbridge@hmrc.gsi.gov.uk



Alison Bainbridge
Golygydd

Cynnwys

4 Gwyliau Rhanbarthol CYG y Cyflogwr ar gyfer Busnesau Newydd

5 Cynllun Cydnabyddiaeth Helaethach Newydd ar gyfer Meddalwedd Masnachol y Gyflogres

6 Gwybodaeth Amser Real – y diweddaraf

8 Creu system TWE/CYG decach Gwybodaeth o bwys

9 Talu CThEM

10 Mae'n ofynnol ar gyflogwyr mawr i dalu'n electronig

A allech chi gael gwared ar eich llyfryn slip talu?

11 Gofalwch rhag bod yn hwyr neu wneud camgymeriad wrth dalu eich Cytundeb Setliad TWE 2010-11

12 Casglu Dyledion Treth drwy TWE Gwybodaeth o bwys

13 Diddymu contractio allan ar sail Cyfraniadau Diffiniedig

14 Cysylltu â CThEM

15 Mae Cyfraith Pensiwn y Gweithle yn newid

16 Newidiadau i gyfeiriadau CThEM ar gyfer cyflogeion Talu Wrth Ennill

17 Cymorth CThEM ar gyfer Asiantau a Chyfrifwyr

Parhau i ddiddymu cardiau rhif Yswiriant Gwladol yn raddol

18 Offer TWE Sylfaenol y Cyflogwr (CD ROM y Cyflogwr yn flaenorol)

19 Ffurflenni ac arweiniad y Cyflogwr

20 Datganiadau Blynyddol y Cyflogwr – Rhai negeseuon allweddol

Diwygiad i'r nodyn P2 ar Hysbysiad Cod P2

Pan fod cyflogai'n derbyn taliad ar ffurf gwarantau sy'n gysylltiedig â'r gyflogaeth ar ôl gadael

21 Isafswm Cyflog Cenedlaethol Gwybodaeth o bwys

22 Rheoliadau Gwyngalchu Arian (MLR) 2007 – A oes angen i chi neu'ch cleientiaid fod wedi cofrestru â CThEM?

23 Tâl Salwch Statudol: Trosolwg

25 Taliadau Statudol a Chytundebau Cyfaddawdu

26 Hysbysiad o newid trothwy ar gyfer benthycwyr Benthyciadau Myfyrwyr sy'n rhan o'r cynllun Ad-dalu'n Amodol ar Incwm (ICR) cyfredol

27 Symudwch i TAW Ar-lein nawr

28 Mae Business Link yn gwella

Sicrhewch eich bod yn dal i allu derbyn hysbysiadau cod yn electronig o fis Hydref 2011

29 Gwasanaeth Canfyddwr Contractau newydd

30 Dyddiadur y Cyflogwr

32 Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

Gwybodaeth o bwys — Gwybodaeth ac erthyglau y mae'n hanfodol eu darllen

Gwyliau Rhanbarthol CYG y Cyflogwr ar gyfer Busnesau Newydd

Cyflwyniad

Yn ei Gyllideb ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y Canghellor gynllun er mwyn cynorthwyo busnesau newydd yn ystod eu blwyddyn gyntaf o fasnachu. Mae'r cynllun – sy'n cael ei adnabod fel Gwyliau Rhanbarthol Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr ar gyfer Busnesau Newydd (Gwyliau CYG) – yn agored i fusnesau newydd a sefydlwyd ar neu ar ôl 22 Mehefin 2010 a bydd yn rhedeg tan 5 Medi 2013. Mae nifer o fusnesau newydd eisoes yn elwa o'r 'gwyliau' y mae'r cynllun yn eu darparu.

Beth yw'r gwyliau?

O dan y cynllun tair blynedd, gall busnesau newydd cymwys gymryd gwyliau o dalu CYG ar gyfer y deg person cyntaf iddynt gyflogi yn ystod eu blwyddyn gyntaf mewn gweithrediad. Bydd pob gwyliau yn para am y 52 wythnos gyntaf pan fo'r cyflogai yn ei swydd, cyn belled â bod yr wythnosau hyn yn syrthio o fewn y cyfnod o dair mlynedd ar gyfer y gwyliau.

Gall busnesau newydd sy'n manteisio ar y cynllun arbed hyd at uchafswm o £50,000 mewn CYG y Cyflogwr – uchafswm o £5,000 y cyflogai, i fyny hyd at ddeg o gyflogeion.

Pwy all elwa o'r gwyliau?

Mae'n bosib bod unrhyw fusnes newydd a sefydlwyd ar neu ar ôl 22 Mehefin 2010 yn gymwys ar gyfer elwa o'r gwyliau CYG. Mae'r cynllun yn gymwys drwy gydol y DU heblaw am Lundain, De Ddwyrain a Dwyrain Lloegr.

Sut mae busnesau yn gwneud cais am y gwyliau?

Dylai unrhyw fusnes newydd sy'n credu y gall elwa o'r gwyliau fynd at yr arweiniad yn www.businesslink.gov.uk/nicsholiday er mwyn gwirio eu bod o fewn y rhanbarth cywir, a'u bod yn bodloni'r amodau cymwys eraill. Unwaith eu bod yn hapus eu bod wedi bodloni'r meini prawf, dylent fynd ati i gwblhau'r cais ar-lein syml sydd o fewn yr arweiniad uchod.

Pwy all wneud cais ar gyfer y gwyliau?

Mae'n rhaid i'r ffurflen gais gael ei chwblhau gan un o'r canlynol:

- unig berchennog y busnes
- partner yn y busnes
- ysgrifennydd neu gyfarwyddwr y cwmni
- yr asiant/cyfrifydd sy'n cynrychioli'r busnes.

Dim ond pan fydd gan Cyllid a Thollau EM ffurflen 64-8 gymwys y derbynnir ceisiadau a gwblheir gan asiantau/cyfrifwyr ar ran eu cleientiaid.

Sut mae busnesau'n hawlio'r rhyddhad gwyliau CYG?

Mae'r arweiniad uchod yn rhoi manylion ar sut y gall cyflogwyr gyfrifo'r CYG y Cyflogwr sydd ganddynt yr hawl i'w ddidynnu o'u taliadau chwarterol i CThEM. Os yw cyflogwyr wedi talu dros y swm llawn o CYG cyn gwneud cais am y gwyliau, yna gallant addasu'r swm a dalwyd ar gyfer taliadau misol i CThEM yn y dyfodol, gan y swm priodol. Gall cyflogwyr hefyd wneud cais am ad-daliad o CYG y Cyflogwr o fewn y flwyddyn, os yw'r swm a wneir cais amdano yn llai na'r cyfanswm sy'n ddyledus i'w dalu i CThEM, neu wneud cais ar ddiwedd y flwyddyn.

erthygl yn parhau >

Cynllun Cydnabyddiaeth Helaethach Newydd ar gyfer Meddalwedd Masnachol y Gyflogres

Beth yw'r terfynau amser ar gyfer y gwyliau?

Mae'r Gwyliau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) ar gael ar gyfer busnesau newydd sy'n cychwyn yn ystod y cyfnod rhwng 22 Mehefin 2010 a 5 Medi 2013. Fodd bynnag, am na ddechreuodd y cynllun ei hun tan 6 Medi 2010, gallwch ddidynnu CYG y Cyflogwr sy'n ddyledus ar enillion a dalwyd ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw (ond cyn 5 Medi 2013) yn unig.

Beth mae CThEM yn ei wneud er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwyliau?

Ers mis Medi 2010 mae CThEM wedi bod yn anfon taflen ynglŷn â'r gwyliau at bob cyflogwr newydd sy'n rhaid iddynt sefydlu cynlluniau Talu Wrth Ennill (TWE) newydd. Yn ogystal, maent wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwyliau ar wefannau CThEM a Business Link, ac wedi cyhoeddi erthyglau ynglŷn â'r gwyliau yng nghylchgronau/cyhoeddiadau cyflogwyr a chyfrifeg.

Yn dilyn pen-blwydd cyntaf y gwyliau, mae CThEM yn cynllunio ar gyfer anfon llythyr wedi'i bersonoli at bob cyflogwr newydd (a'u cyfrifwyr) a sefydlwyd ers 22 Mehefin 2010, yn eu hatgoffa o fuddiannau'r gwyliau a'r hyn y gallent wneud ar gyfer eu busnes.

Beth mae busnesau sy'n manteisio ar y gwyliau ar hyn o bryd yn ei ddweud?

Yn dilyn ychydig o ymchwil diweddar, cawsom y byddai pob busnes a wnaeth gais llwyddiannus am y gwyliau yn argymell y gwyliau i fusnesau tebyg eraill.

Ymhle gallaf ganfod mwy o fanylion ynglŷn â'r gwyliau?

Gellir canfod arweiniad llawn yn www.businesslink.gov.uk/nicsholiday

O 1 Hydref 2011, rydym yn cyflwyno Cynllun Cydnabyddiaeth Helaethach newydd sydd wedi ei anelu at Ddatblygwyr Meddalwedd y Gyflogres.

Bydd hwn yn disodli'r ddau gynllun Meddalwedd y Gyflogres sy'n bodoli eisoes

- y cynllun Achrediad Nod Safon Cyflogres sy'n perthyn i gyfrifiadau'r gyflogres a'r
- cynllun Cydnabyddiaeth Cyflwyno Ar-lein ar gyfer gwirio y gellir cynhyrchu a chyflwyno ffeiliau ar-lein cymwys i CThEM.

Bydd y cynllun Achrediad Nod Safon Cyfloges yn dod i ben yn llwyr o 6 Ebrill 2012 ynghyd â'r rhestr achrededig o gynnyrch meddalwedd y gyflogres a logo Nod Safon Cyflogres CThEM.

Bydd y Cynllun Cydnabyddiaeth Helaethach hwn yn cyfuno elfennau o'r ddau gynllun blaenorol ac yn ein galluogi i weithio gydag ystod eangach o ddatblygwyr meddalwedd a chynnyrch meddalwedd y gyflogres.

Wrth i gynnyrch meddalwedd ddechrau derbyn Cydnabyddiaeth Helaethach ar gyfer TWE gan CThEM bydd eu manylion ar gael o'r cysylltiadau cyfredol:

- Meddalwedd sy'n defnyddio Ymgyfnewid Data Electronig (EDI) – www.hmrc.gov.uk/ebu/edi/edi-software.htm
- Meddalwedd sy'n defnyddio'r rhyngrwyd – www.hmrc.gov.uk/efiling/paye/paye_software_forms.htm

Gwybodaeth Amser Real – y diweddaraf

Bydd Gwybodaeth Amser Real yn newid yn sylfaenol y modd y mae cyflogwyr a darparwyr pensiwn yn anfon gwybodaeth ynglŷn â chyflogeion at CThEM.

O dan Gwybodaeth Amser Real (RTI) bydd cyflogwyr yn anfon gwybodaeth at CThEM ynglŷn â threth a didyniadau eraill ar yr un pryd, neu cyn, y caiff pob taliad cyflog neu bensiwn ei wneud, yn hytrach nag ar ddiwedd pob blwyddyn dreth.

Bydd cael yr wybodaeth hon yn gynt yn golygu y gallwn ddiwygio ein cofnodion yn gyflymach a, dros amser, gwneud y system yn fwy cywir ac effeithlon ar gyfer cyflogeion, ac yn llai o faich ar gyfer cyflogwyr a CThEM. Bydd RTI yn helpu i gynnal cyflwyniad Credydau Cynhwysol.

Gwnaethom sôn wrthych yn wreiddiol ynglŷn â symud tuag at RTI yn rhifyn mis Chwefror 2011 o'r Bwletin. Bu nifer o ddatblygiadau ers hynny.

Ymgynghori

Ym mis Chwefror, roeddem ar fin cyrraedd diwedd ein cyfnod ymgynghori. Gwnaethom dderbyn bron a bod 200 o ymatebion ffurfiol i'r ddogfen ymgynghori '*Improving the operation of Pay As You Earn (PAYE): Collecting Real Time Information*', ac mae nifer o gyflogwyr, biwroau cyflogres, darparwyr pensiwn a datblygwyr meddalwedd wedi mynychu seminarau er mwyn gofyn cwestiynau a rhannu safbwyntiau. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion o blaid symud i RTI, ond codwyd pryderon ynglŷn â'r amserlen, yn arbennig ar gyfer datblygu'r sianel BACS ar gyfer hysbysu am RTI. Bydd CThEM yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion yn hwyrach yn y flwyddyn.

O ganlyniad i adborth ar ôl ymgynghori mae CThEM wedi addasu ei gynlluniau, a bydd yn:

- cynnal cynllun peilot o'r gwasanaeth RTI gyda datblygwyr meddalwedd a chyflogwyr gwirfoddol am flwyddyn, gan ddechrau ym mis Ebrill 2012. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gan ddatblygwyr meddalwedd amser digonol i ddatblygu eu hystod llawn o gynnyrch meddalwedd y gyflogres, a rhoi amser i gyflogwyr i addasu eu prosesau cyflogres. Bydd hefyd yn sicrhau bod y gwasanaeth RTI yn cael ei brofi'n drylwyr cyn bod y mwyafrif o gyflogwyr a darparwyr pensiwn yn dechrau ei ddefnyddio o fis Ebrill 2013.
  Rydym wedi bod yn gweithio ar y cyd gyda datblygwyr meddalwedd cyflogres er mwyn nodi trawstoriad o gyflogwyr gwirfoddol i gymryd rhan yn y cynllun peilot. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda'r cyflogwyr a ddewiswyd – cymysgedd o ran eu maint a'u math – er mwyn eu paratoi ar gyfer y cynllun peilot. Rydym hefyd yn edrych ar sut i gael mwy o gyflogwyr yn rhan o RTI cyn mis Ebrill 2013. Gwnawn ddweud mwy wrthych ynglŷn â'r cynllun peilot mewn rhifynnau pellach o'r Bwletin.
- derbyn cyflwyniadau RTI drwy'r sianeli cyflwyno cyfredol – defnyddio'r rhyngrwyd drwy Borth y Llywodraeth ac EDI – beth bynnag yw'r dull a ddefnyddir i dalu cyflogeion. Mae'r sianel EDI yn drefniant trawsnewidiol a bydd yn rhedeg tan o leiaf mis Ebrill 2014.
  Mae'r sianel Bacs yn parhau i fod yn ddewis strategol CThEM ar gyfer cyflogwyr sy'n talu eu cyflogeion drwy Bacs. Gwnawn gyhoeddi mwy o wybodaeth ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyflwyno hyn yn hwyrach yn y flwyddyn.

erthygl yn parhau >

Gwefan RTI

Gallwch ganfod mwy ynglŷn â RTI o'r dudalen RTI ar wefan CThEM o'r enw '*Improving the Operation of PAYE: Real Time Information*' yn www.hmrc.gov.uk/rti/index.htm Yn ogystal â gwybodaeth gefndir ynglŷn â'r rhaglen RTI, mae'n cynnwys rhai 'Cwestiynau a Ofynnir yn Aml', y mae'n bosib y bydd pob cyflogwr yn eu cael yn ddefnyddiol. Gwnawn ddiweddaru'r tudalennau hyn yn rheolaidd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â datblygiadau i chi.

Ffordd arall o sicrhau nad ydych yn colli unrhyw ddatganiadau ynglŷn â RTI yn y dyfodol – neu unrhyw newidiadau eraill sy'n ymwneud â TWE – yw i ymrestru ar gyfer derbyn ein e-byst hysbysu rhad ac am ddim. Ewch i www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm

Paratoi ar gyfer RTI: Safon data

Mae gwella safon y data rydym yn ei ddal ac yn ei brosesu yn rhan bwysig o wella'r broses TWE drwy RTI.

Yn ychwanegol at wella ein prosesau ein hunain, mae eich cynorthwyo i baratoi ar gyfer RTI yn flaenoriaeth i ni. Fel rhan o'r paratoadau hyn rydym wedi bod yn gweithio er mwyn deall gwir achosion y problemau data mwyaf sylweddol fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i'w hunioni.

Un gwir achos pwysig o broblemau safon data yw gwybodaeth wallus neu anghyflawn a dderbyniwyd gan gyflogwyr a darparwyr pensiwn. Y tri darn o wybodaeth sy'n creu problemau yn fwyaf cyson yw:
– **Dyddiad Geni** coll/anghywir
– **Enwau** cyntaf ac olaf anghywir/coll/anghyflawn
– **Rhifau Yswiriant Gwladol** coll/anghywir

Er mwyn cynorthwyo cyflogwyr i baratoi ar gyfer RTI, mae CThEM yn cynllunio ar gyfer
– Gwella gwybodaeth ynglŷn â phroblemau safon data a sut i'w hunioni
– Gwella arweiniad ynglŷn ag arfer da; a
– Cynnal ymweliadau wedi eu targedu ar gyfer cynorthwyo cyflogwyr
Yn ychwanegol, byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth cyn hir i'ch cynorthwyo i osgoi'r gwallau mwyaf cyffredin. Yn y cyfamser dyma bethau ymarferol y gallwch eu gwneud er mwyn sicrhau eich bod yn ei gael yn iawn:

1. Peidiwch byth â ffugio gwybodaeth bersonol!
2. Wrth anfon dyddiad geni person atom, gwiriwch y caiff ei ddangos fel 8 rhif, y ddau gyntaf yn adlewyrchu'r **dydd**, yr ail ddau, y **mis**, a'r pedwar olaf y **flwyddyn**. Er enghraifft, ar gyfer person a aned ar 7 Rhagfyr 1960, dangosir eu dyddiad geni fel 07121960.
3. Wrth anfon enw'r unigolyn atom anfonwch y cyfenw llawn, nid y llythyren gyntaf yn unig. Sicrhewch hefyd fod yr enw cyntaf a'r cyfenw yn y drefn gywir.
4. Gwiriwch fod y Rhif Yswiriant Gwladol yn cynnwys dau rif, yna chwe rhif, ac yn olaf llythyren arall (naill ai A, B, C neu D). Gallwch ganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â fformat Rhif Yswiriant Gwladol yn www.hmrc.gov.uk/manuals/nimmanual/NIM39110.htm Ceisiwch wirio fod y rhif a roddwyd i chi o ffynhonnell ddibynadwy, fel dogfennaeth gan CThEM neu'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae cofnodi'r wybodaeth hon yn gywir wrth gyflogi rhywun newydd yn ddechreuad gwych a gall helpu i leihau problemau'n ddiweddarach.

Gwnawn eich cadw i'r funud ynglŷn â'r mewnwelediadau safon data diweddaraf drwy ein gwefan a rhifynnau pellach o Fwletin y Cyflogwr.

Gwybodaeth o bwys

Creu system TWE/CYG decach

O 6 Ebrill 2012 bydd gan CThEM bŵer newydd er mwyn mynd i'r afael â'r lleiafrif o gyflogwyr sy'n benderfynol o beidio â thalu'r arian y maent yn ei ddidynnu wrth gyflogeion drwy TWE/CYG. Pan fod cyflogwr yn peri risg sylweddol bydd yn ofynnol arnynt gan CThEM i ddarparu gwarant er mwyn gwarchod yn erbyn peidio â thalu.

Ni fydd hyn yn effeithio ar gyflogwyr sy'n bodloni eu hymrwymiadau ar amser neu'r cyflogwyr hynny sy'n profi anawsterau talu gwirioneddol.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynorthwyo busnesau sy'n profi anawsterau ariannol. Ni fydd y newid yn gymwys ar gyfer cyflogwyr sydd:

- wedi cytuno i drefniadau amser i dalu
- yn derbyn cymorth o dan y Gwasanaeth Cefnogi Busnes
- ond yn cyflogi cyflogeion personol neu ofalwyr.

Fodd bynnag, nid yw'n deg bod y cyflogwyr hynny sy'n dewis peidio â thalu TWE a CYG i CThEM yn ennill mantais ariannol a mantais fusnes sylweddol dros y rhai hynny sydd yn talu, a bydd y pŵer hwn yn ein helpu i fynd i'r afael â hynny.

Mae'r newid hwn yn cefnogi blaenoriaeth y Llywodraeth o gael system dreth decach. Mae'n anelu at gymryd cyflogwyr nad sy'n cydymffurfio i raddau difrifol yn ôl i'r system gan dalu eu siâr.

Gwnaethom ymgynghori'n eang ynglŷn â'r pŵer newydd hwn. Nid yw'r ymdriniaeth hon yn newydd am y gall CThEM eisoes ei wneud yn ofynnol i gael gwarant ar gyfer TAW a'r rhan fwyaf o drethi anuniongyrchol eraill.

Pan fyddwn yn credu bod gwarant yn angenrheidiol gwnawn gyfrifo swm y warant yn seiliedig ar dystiolaeth yr achos unigol. Gall y cyflogwr apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn yr hysbysiad sy'n gofyn am warant, neu'r swm. Fel opsiwn arall gallant ofyn i'w hachos gael ei adolygu'n gyntaf gan ein tîm adolygu mewnol cyn unrhyw wrandawiad gan y Tribiwnlys.

Yn yr un modd â gwarantau TAW cyffelyb, bydd cosb ariannol am beidio â darparu gwarant pan ei fod yn ofynnol i gael un, gyda dirwy i fyny hyd at £5,000.

Y math mwyaf cyffredin o warant yw blaendal ariannol a gaiff ei ddal gan CThEM neu a delir i gyfrif CThEM/trethdalwr sy'n cynhyrchu llog. Gall gwarant fod yn fond ar sail perfformiad sy'n debyg i warant trydydd parti. Gellir ei ddarparu gan unrhyw fanc, cymdeithas adeiladu neu unrhyw sefydliad ariannol arall a gymeradwyir gennym.

Os ydych yn cael problemau yn ein talu cysylltwch â ni cyn gynted â phosib – ewch i www.hmrc.gov.uk/payinghmrc/problems/cantpay.htm

Talu CThEM

A yw eich taliadau TWE misol neu chwarterol yn mynd i'r lle a ddymunwch iddynt fod bob tro?

Os nad ydynt, cyn i chi anfon eich taliad nesaf, gwiriwch ein harweiniad ynglŷn â thalu yn www.businesslink.co.uk/payingpaye

Mae taliadau a wneir yn electronig yn symud yn uniongyrchol o'r banc, cymdeithas adeiladu neu'r Swyddfa Bost i'r cyfeirnod a ddywedoch wrth eich darparwr i'w ddefnyddio, heb unrhyw ymyrraeth gennym ni. Os gwnaethoch dalu drwy siec a slip talu drwy'r post, rydym yn delio â'r taliad gan ddefnyddio peiriannau tra awtomataidd, gan brosesu'r taliad yn uniongyrchol i'r cofnod heb unrhyw gysylltiad clerigol.

Mae dyrannu'r taliad yn dibynnu'n llwyr ar gywirdeb yr wybodaeth a ddarparwch, ar gyfer y mwyafrif helaeth o daliadau yr anfonwch atom. Os nad ydych yn rhoi'r wybodaeth gywir i ni gan gynnwys eich cyfeirnod ac, os ydych yn talu'n gynnar neu'n hwyr, y flwyddyn dreth sy'n dod i ben a'r mis yn y drefn benodol honno, yna mae'n bosib y caiff eich taliad ei ddyrannu'n anghywir.

Er enghraifft, taliad ar gyfer

- Mis **01** o 2011-**12** yn ddyledus erbyn 22 Mai ond a anfonwyd cyn 6 Mai – byddai angen i chi ychwanegu **1201** at eich cyfeirnod, fel iddo ddod yn 123PA000123451**201**. Os na chaiff y flwyddyn dreth sy'n dod i ben a'r mis eu hychwanegu, byddai'r taliad yn cael ei ddyrannu i'r flwyddyn dreth flaenorol.
- Mis **01** o 2011-**12** yn ddyledus erbyn 22 Mai ond a anfonwyd ar ôl 5 Mehefin – byddai angen ychwanegu **1201** hefyd at eich cyfeirnod am y cafodd y taliad ei wneud yn y mis treth nesaf. Bydd y cyfeirnod wedyn yn 123PA000123451**201**. Yn yr achos hwn, os na ychwanegir y flwyddyn dreth a ddaeth i ben a'r mis, byddai'r taliad yn cael ei ddyrannu i fis 03.
- Y flwyddyn dreth flaenorol – 2010-11 dylech ychwanegu **1113** i'r cyfeirnod, iddo ddod yn 123PA000123451**113**. Dylech ddangos rhif y mis bob tro fel 13 ar gyfer taliadau diwedd y flwyddyn. Yn yr achos hwn, os na chaiff y flwyddyn dreth a ddaeth i ben a'r mis eu hychwanegu, byddai'r taliad yn cael ei ddyranu i fis 01 o 2011-12.

Pan fydd arnoch angen defnyddio eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon eich hun wrth dalu TWE/CYG ac unrhyw log ar TWE/CYG yw'r enghreifftiau uchod.

Ni ddylech ddefnyddio eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon wrth wneud taliad unigol fel talu cosb am dalu'n hwyr, Cytundeb Setliad TWE neu unrhyw daliadau amrywiol eraill. Ni chaiff y taliad ei adnabod a byddwch yn parhau i dderbyn nodion atgoffa hyd yn oed eich bod wedi talu.

Wrth wneud unrhyw daliad unigol bydd angen i chi ddarparu cyfeirnod eich tâl. Gwnewch ganfod hwn wedi'i argraffu yn y fformat XA123456789012 (enghraifft yn unig yw'r cyfeirnod hwn ac ni ddylid ei ddefnyddio er mwyn talu) ar y slip talu a anfonir atoch chi.

Drwy ddilyn ein harweiniad ar-lein bob tro i chi wneud taliad byddwch yn siŵr ei fod wedi ei ddyrannu'n gywir ac ni ofynnir i chi dalu rhywbeth rydych eisoes wedi'i dalu!

Mae'n ofynnol ar gyflogwyr mawr i dalu'n electronig

Mae'n ofynnol ar gyflogwyr mawr (y rhai hynny sydd â 250 neu'n fwy o gyflogeion ar 31 Hydref) i dalu eu didyniadau TWE/CYG yn llawn ac ar amser drwy ddull electronig cymeradwy. O Ebrill 2010, golyga newid i'r ddeddfwriaeth nad yw bellach yn ofynnol arnom i anfon hysbysiadau, a anfonwyd ym mis Hydref a mis Tachwedd yn flaenorol, ar gyfer y cyflogwyr hynny sy'n rhaid iddynt dalu'n electronig ar gyfer y flwyddyn nesaf. Felly os oes gennych 250 neu'n fwy o gyflogeion ar 31 Hydref, mae'n rhaid i chi dalu'n electronig ar gyfer y flwyddyn dreth nesaf.

Wrth dalu'n electronig mae'n rhaid i'r taliad wedi'i glirio gyrraedd ein cyfrif banc heb fod yn hwyrach na'r 22ain o'r mis yn dilyn diwedd y mis treth neu'r chwarter y mae'n perthyn iddo. Pan fod yr 22ain yn syrthio ar benwythnos neu ŵyl y banc, mae'n rhaid i arian wedi'i glirio fod yn ein cyfrif banc heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith banc olaf cyn yr 22ain. Dydd Llun i ddydd Gwener yw diwrnodau gwaith banc, ac eithrio gwyliau'r banc.

Am wybodaeth bellach ewch i www.businesslink.gov.uk/payepaymentdeadlines

A allech chi gael gwared ar eich llyfryn slip talu?

Rydym yn postio dros 1.6 miliwn o lyfrynnau slip talu at gyflogwyr bob blwyddyn. Bydd torri'r nifer hwn yn ein cynorthwyo i leihau costau ac o fudd i'r amgylchedd. A allech chi gael gwared ar eich un chi?

Os nad oes angen llyfryn slip talu arnoch mwyach ac yr hoffech i ni roi'r gorau i'w hanfon, rhowch wybod i ni. Gallwch wneud hyn ar unrhyw adeg gan ddefnyddio ein ffurflen ar-lein yn www.hmrc.gov.uk/stopbooklet

Talu ar-lein

Mae talu'n electronig yn saff, diogel ac yn effeithlon ac mae gennych fwy o reolaeth er mwyn sicrhau bod eich taliad yn cael ei dderbyn ar amser. Nid oes angen llyfryn slip talu arnoch os ydych yn talu'n electronig drwy Ddebyd Uniongyrchol, cerdyn credyd neu ddebyd, bancio dros y rhyngrwyd neu'r ffôn, Credyd Uniongyrchol Bacs neu CHAPS. Mae'n bosib yr arbedwch ar gostau'r post hefyd.

Gwnewch ganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â thalu'n electronig yn www.businesslink.gov.uk/payinghmrc

Dim taliad yn ddyledus am fis neu chwarter?

Nid oes angen slip talu arnoch i'n hysbysu nad oes gennych unrhyw beth i'w dalu am fis neu chwarter. Hysbyswch ni drwy defnyddio ein ffurflen ar-lein yn www.hmrc.gov.uk/nilpayedue

Llyfrynnau Slip Talu 2012-13

Gwnawn ddechrau anfon llyfrynnau slip talu ar gyfer 2012-13 o 19 Rhagfyr 2011. Os byddwch yn penderfynu nad ydych am ddefnyddio llyfryn slip talu mwyach ar gyfer y flwyddyn dreth nesaf yna gadewch i ni wybod cyn gynted â phosib ond yn sicr cyn 1 Rhagfyr 2011. Bydd hyn yn sicrhau nad ydym yn eich cynnwys ar y rhestr o gwsmeriaid sydd i dderbyn llyfryn.

Gofalwch rhag bod yn hwyr neu wneud camgymeriad wrth dalu eich Cytundeb Setliad TWE 2010-11

Os ydych wedi dod i Gytundeb Setliad TWE (PSA) â ni ar gyfer 2010-11, yna bydd yn rhaid i chi dalu'r dreth a CYG Dosbarth 1B erbyn y terfyn amser cymwys ym mis Hydref 2011, neu rydych yn mentro cael llog wedi'i godi arnoch a chosb am dalu'n hwyr.

Terfyn amser ar gyfer taliadau electronig

Os ydych yn talu'n electronig, mae'n rhaid i'ch taliad wedi'i glirio gyrraedd ein cyfrif banc heb fod yn hwyrach na 22 Hydref. Fodd bynnag, am fod 22 Hydref 2011 yn ddydd Sadwrn, golyga bod **yn rhaid i arian wedi'i glirio fod gyda ni ar ddydd Gwener 21 Hydref** eleni. Mae taliad electronig yn cynnwys yr holl ddulliau talu rydym yn eu darparu, ar wahân i dalu drwy'r post.

Mae'n rhaid dechrau eich taliad yn ddigon cynnar felly i'w glirio cyn dydd Gwener 21 Hydref. Am y gallai eich banc neu'ch cymdeithas adeiladu gymryd hirach nag y disgwyliwch i brosesu'r taliad, a gallai fod ganddynt dorbwynt ar gyfer dechrau taliad, mae'n bosib y bydd arnoch angen gwirio'r manylion hyn gyda nhw o flaen llaw. Gallwch ganfod mwy ynglŷn â'r dulliau gwahanol o dalu'n electronig o'r cysylltiad ar ddiwedd yr erthygl hon.

Terfyn amser ar gyfer taliadau drwy'r post

Os ydych chi'n talu drwy'r post, mae'n rhaid postio eich taliad drwy siec yn ddigon cynnar er mwyn ein cyrraedd heb fod yn hwyrach na 19 Hydref. Wth reswm, mae oedi'r post y tu-hwnt i'ch rheolaeth chi a CThEM, sef pam ein bod yn awgrymu'r diogelwch a'r sicrwydd sydd ynghlwm wrth daliadau electronig.

Rhai gwallau cyffredin i'w hosgoi wrth dalu eich PSA

Y camgymeriad mwyaf cyffredin yw ychwanegu swm y PSA at y taliad TWE misol neu chwarterol a'i anfon fel un taliad; fel arfer ym mis Hydref ond o bosib gyda thaliad cynharach neu hwyrach.

Peidiwch â chynnwys swm y PSA gyda'ch taliad TWE/CYG. Os gwnewch hynny, bydd yn ymddangos fel petaech heb dalu'r PSA a gofynnir i chi ei dalu eto.

Dylid gwneud eich taliad PSA ar wahân, naill ai'n electronig neu gan ddefnyddio'r slip talu PSA yr anfonwn atoch. Peidiwch â defnyddio un o'r slipiau talu o'ch Llyfryn Slip Talu'r Cyflogwr am y bydd hyn yn arwain at ddyrannu taliadau yn anghywir am fod y cyfeirnod ar y slip talu yn perthyn i'ch TWE/CYG misol/chwarterol ac nid i'ch PSA.

- Gellir gwneud gwallau'n ogystal gyda'r cyfeirnod a ddefnyddir â thaliadau electronig. Am fod PSA yn daliad unigol, mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r cyfeirnod PSA ac nid eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon TWE.

Mae eich PSA 14 cymeriad yn dechrau â'r llythyren 'X' ac ar y slip talu y gwnaethom ei anfon atoch. Er enghraifft XA012345678912 (enghraifft yn unig yw'r cyfeirnod hwn ac ni ddylir ei ddefnyddio er mwyn talu). Mae'n bwysig eich bod yn dangos y cyfeirnod heb fylchau rhwng y nodau, neu fe allai arwain ar oedi wrth ddiweddaru eich cofnodion.

erthygl yn parhau >

Gwybodaeth o bwys

Casglu Dyledion Treth drwy TWE

Os ydych yn defnyddio eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon TWE cyffredin, ni chaiff y taliad PSA ei adnabod a byddwch yn parhau i dderbyn nodion atgoffa hyd yn oed eich bod wedi talu.

Os nad oes gennych eich cyfeirnod PSA, cysylltwch â'r swyddfa sy'n delio â'ch cais am PSA er mwyn cael cyngor.

Gall problemau godi'n ogystal os defnyddir y manylion cyfrif banc anghywir. Mae rhai cyflogwyr yn copïo'r manylion banc o flaen eu slip talu TWE, a all arwain at oedi cyn i'r taliad gyrraedd y cyfrif cywir; am fod y manylion cyfrif hyn yn gymwys wrth dalu drwy giro banc neu mewn Swyddfa Bost yn unig.

Er mwyn osgoi'r broblem hon, wrth dalu eich PSA drwy Gredyd Uniongyrchol Bacs, bancio dros y rhyngrwyd neu'r ffôn neu CHAPS, dylech ddefnyddio'r manylion cyfrif banc canlynol yn unig:

Swyddfa Gyfrifon	Cod didoli	Rhif y cyfrif	Enw'r cyfrif
Shipley	08 32 10	12001020	HMRC Shipley

Gellir canfod gwybodaeth bellach ynglŷn â sut i wneud eich taliad Cytundeb Setliad TWE yn www.businesslink.gov.uk/payingpsa

O fis Ebrill 2012 bydd CThEM yn gallu casglu dyledion hyd at £2,999.99 mewn gwerth, drwy ddiwygio cod treth unigolion sydd mewn cyflogaeth TWE neu'n derbyn pensiwn sydd wedi'i seilio yn y DU.

Gwnawn ddefnyddio'r dull ychwanegol hwn o adennill ar gyfer dyledion Hunanasesiad a gordaliadau Credydau Treth o fis Ebrill 2012.

Caiff yr hysbysiadau cod TWE cyntaf i gynnwys y newidiadau hyn eu hanfon o fis Ionawr 2012.

Caiff dyled Hunanasesiad neu ordaliad Credydau Treth ei ddisgrifio ar yr hysbysiad Cod P2 blynyddol fel 'Dyled sy'n dal heb ei thalu' gyda nodyn i ddweud p'un ai bod hon yn dreth Hunanasesiad, gordaliad Credydau Treth neu'r ddau.

Ni chaiff codau treth eu newid o fewn y flwyddyn er mwyn adennill y dyledion/gordaliadau hyn am y cânt eu cynnwys yn y cod a anfonwyd ar gyfer dechrau blwyddyn dreth bob tro.

Gwnawn ddechrau anfon llythyrau at ddyledwyr Hunanasesiad dethol o fis Awst 2011, ac at hawlwyr Credydau Treth sydd â gordaliadau sy'n dal heb eu talu o'n gynnar ym mis Hydref. Byddwn wedi ysgrifennu at yr unigolion hyn o leiaf unwaith yn flaenorol yn gofyn am daliad. Bydd y llythyrau a anfonir o fis Awst a mis Hydref yn eu cynghori y gellir casglu eu dyledion neu ordaliadau drwy addasu'r cod treth o fis Ebrill 2012 a rhoi cyfle olaf iddynt naill ai i dalu'n llawn neu i gysylltu â ni er mwyn trafod opsiynau talu eraill.

Os fyddai ad-dalu'r ddyled yn peri caledi ariannol i unrhyw un o'ch cyflogeion gallant fynd i www.businesslink.gov.uk/problemspayingHMRC neu os oes ganddynt unrhyw ymholiadau ynglŷn â'u codau treth o ganlyniad i'r newid hwn, yna dywedwch wrthynt am ffonio'r rhif sydd ar y llythyr.

Diddymu contractio allan ar sail Cyfraniadau Diffiniedig

O 6 Ebrill 2012 bydd contractio Pensiwn Ychwanegol y Llywodraeth allan ar sail cyfraniadau diffiniedig (DC) yn cael ei ddiddymu. Bydd ein cofnodion yn dangos bod aelodaeth o'r cynlluniau wedi'u contractio allan hyn wedi cau o 5 Ebrill 2012.

Bydd y newid hwn yn effeithio ar:

- Cynlluniau pwrcasu arian wedi'u contractio allan (COMP)
- Rhannau o gynlluniau budd-dal cymysg wedi'u contractio allan (COMB) a gontractir allan ar sail DC
- Cynlluniau Pensiwn Personol Priodol (APP) a Chynlluniau Rhanddeiliad AP.

Caiff y rheolau sy'n pennu sut y dylid ymdrin â budd-daliadau sydd â'u hawliau wedi'u diogelu eu diddymu'n ogystal. 'Hawliau wedi'u diogelu' yw'r enw torfol ar gyfer ad-daliadau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG), rhyddhad treth cysylltiedig ac adenillion buddsoddiad sydd wedi ei gronni. Am na fydd hawliau wedi'u diogelu yn bodoli mwyach, dylai hyn gynorthwyo i symleiddio gweinyddiaeth o ran cadw cofnodion, cysylltu ag aelodau a phrosesu budd-daliadau.

Bydd yn dal i fod yn bosib contractio allan Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth ar sail Budd-dal wedi'i Ddiffinio (Cynlluniau sy'n Gysylltiedig â Chyflog, sydd wedi'u Contractio Allan (COSR)), fodd bynnag, mae'n rhaid bod gennych dystysgrif contractio allan ddilys er mwyn gwneud hynny.

Os ydych yn dymuno contractio allan ar sail sy'n gysylltiedig â chyflog yn dilyn diddymu ac nad oes eisoes gennych dystysgrif COSR fel rhan o gynllun budd-daliadau cymysg, bydd yn rhaid i chi wneud cais ar gyfer tystysgrif COSR sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2012. Ni ddylech ddidynnu CYG wedi'u contractio allan o dan lythrennau CYG categori cyfradd D, E, L, N neu O heblaw bod gennych dystysgrif contractio allan COSR.

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer cyflogwyr

Bydd angen i chi

- gynllunio ar gyfer y newidiadau, os nad ydych eisoes yn gwneud hynny
- drafod gydag ymddiriedolwyr y cynllun a/neu'ch ymgynghorwyr, ynglŷn â sut y bydd y cynllun yn gweithredu yn dilyn y newid hwn
- ystyried unrhyw newidiadau i'r cynllun er mwyn cymryd i ystyriaeth y ffaith na fydd ad-daliad CYG ar gael ar ôl 6 Ebrill 2012
- hysbysu eich cyflogeion am y newidiadau i'r cynllun pensiwn
- fod yn ymwybodol y byddwch chi a'ch cyflogeion yn talu CYG cyfradd safonol yn hytrach na'r gyfradd wedi'i chontractio allan is o CYG
- fod yn ymwybodol, o'r flwyddyn dreth 2012-13 na ddefnyddir CYG llythrennau categori F, G, H, K, V ac S ac ni ddylid eu nodi ar ffurflenni P11 neu P14
- sicrhau y caiff y categori CYG cywir ei weithredu ar gyfer yr holl enillion a dalwyd o 6 Ebrill 2012
- fod yn ymwybodol y caiff y maes Rhif Contractio Allan y Cynllun (SCON) ei symud o'r ffurflen P14.

Gallwch ganfod manylion pellach ynglŷn â'r newidiadau yn www.dwp.gov.uk/docs/emp-contracting-out-factsheet.pdf

erthygl yn parhau >

Cysylltu â CThEM

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer unigolion

Bydd yn dal i fod angen defnyddio'r hawliau pensiwn wedi'u contractio allan y mae aelodau wedi'u cronni i fyny hyd at y diwrnod diddymu er mwyn darparu budd-daliadau ar gyfer y cyfnod pan gafodd aelodau eu contractio allan o'r cynllun Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth.

Heblaw eu bod yn ymuno â chynllun sy'n gysylltiedig â chyflog, sydd wedi'i gontractio allan, caiff unigolion sy'n dal i fod yn gyflogedig gennych;

- eu dwyn yn ôl i'r cynllun Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth ac, yn dibynnu ar lefel eu henillion, gallant gronni'r hawl i Bensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth
- dalu cyfradd safonol o CYG yn hytrach na chyfradd wedi'i chontractio allan is o CYG ar eu henillion.

Gall eich cyflogeion ganfod manylion pellach ynglŷn â'r newidiadau yn www.direct.gov.uk/contractedoutpensions

Mae'r Ganolfan Gyswllt Cymraeg yn ymdrîn ag ystod o ymholiadau Cyflogwyr, gan gynnwys:

- **Ymholiadau ynglŷn â thalu** – Cyngor ynglŷn â pha ddulliau talu y gellir eu defnyddio ar gyfer Hunanasesiad a TWE
- **Gwasanaethau ar-lein** – Cymorth gyda'n gwasanaethau ar-lein gan gynnwys 'negeseuon gwall' wrth gyflwyno Ffurflenni Treth Hunanasesiad, TWE ar gyfer Cyflogwyr a Threth Gorfforaeth
- **Ymholiadau treth cyflogeion unigol** – Cymorth i chi wrth gynnal pensiynau blynyddol cyflogeion neu daleion pensiwn
- **Cyflogwyr – cadarnhau cod treth eich cyflogai** – cymorth ar gyfer cyflogwyr sydd eisiau gwirio'r cod treth ar gyfer cyflogai neu ddarparu gwybodaeth benodol.

Mae'r Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar agor rhwng 08:30 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae rhestr o rifau cyswllt Saesneg ar gael hefyd, ewch i www.hmrc.gov.uk/contactus yna dewiswch *'More contacts…'* o fewn yr adran *'employers'* las.

Mae Cyfraith Pensiwn y Gweithle yn newid

O 2012, bydd newidiadau i gyfraith pensiynau yn cael effaith ar bob cyflogwr sydd ag o leiaf un gweithiwr yn y DU. Caiff nifer o ddyletswyddau newydd ar gyfer cyflogwyr eu cyflwyno a fydd yn rhoi mynediad i ddarpariaethau pensiwn i filiynau o weithwyr.

Bydd angen i gyflogwyr:

- Ymrestru gweithwyr penodol yn awtomatig i gynllun pensiwn
- Wneud cyfraniadau ar ran eu gweithwyr
- Gofrestru gyda'r Rheolydd Pensiynau
- Darparu gweithwyr gyda gwybodaeth benodol ynglŷn â'r newidiadau a sut y byddant yn effeithio arnynt.

Caiff y dyletswyddau newydd hyn ar gyfer cyflogwyr eu cyflwyno fesul cam dros 4 mlynedd, gan ddechrau yn 2012. Dyrennir dyddiad ar gyfer pob cyflogwr, sef y dyddiad cyntaf pan fydd y dyletswyddau'n gymwys ar eu cyfer, a gaiff ei alw'n 'ddyddiad cymwys'. Mae'r dyddiad hwn yn seiliedig ar y nifer o bobl sydd mewn cynllun TWE cyflogwr. Bydd gan gyflogwyr sydd â'r nifer mwyaf o weithwyr yn eu cynlluniau TWE y dyddiad cymwys cyntaf. Ni fydd gan y busnesau bach a micro cyntaf ddyddiadau cymwys tan 2014 neu 2015.

Mae ymrestru'n awtomatig yn un o'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ac wedi ei ddylunio er mwyn goresgyn y ffaith fod llawer o weithwyr yn colli allan ar fuddiannau pensiwn gwerthfawr am nad ydynt yn gwneud cais i ymuno â chynllun pensiwn eu cyflogwr, neu nad yw eu cyflogwr yn cynnig mynediad iddynt i gynllun gweithle.

Pan fydd y gyfraith yn newid bydd yn ofynnol ar bob cyflogwr i gynnig cynllun pensiwn sy'n bodloni meini prawf penodol; fel ag yr amlinellir gan y Llywodraeth. Bydd hyn yn ganolog i gydymffurfio â'r dyletswyddau newydd.

Cafodd y Rheolydd Pensiwn y dasg o sicrhau bod pob cyflogai yn cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd. Er mwyn gwneud hyn mae'r rheolydd yn anelu at sefydlu diwylliant sydd o blaid cydymffurfio, pan fod cyflogwyr yn ystyried cydymffurfio fel yr hyn sy'n arferol.

Mae addysg yn elfen allweddol wrth sicrhau bod cyflogwyr yn deall eu dyletswyddau ac yn gwybod sut i gydymffurfio. Drwy addysgu cyflogwyr a'i wneud mor syml â phosib i gydymffurfio, cred y rheolydd y bydd llawer llai o alw amdanynt i ddefnyddio eu pwerau er mwyn gorfodi'r gyfundrefn.

Er mwyn cefnogi cyflogwyr, mae'r rheolydd wedi datblygu a chyhoeddi ystod o ddeunydd addysgiadol. Lluniwyd y rhain er mwyn bodloni anghenion cyflogwyr o feintiau gwahanol ac â gwahanol lefelau o wybodaeth a phrofiad o ran pensiynau.

Mae'r rheolydd yn gweithio hefyd â'r sefydliadau y mae busnesau bach eisoes yn dibynnu arnynt ar gyfer cyngor a chymorth. Bydd sefydliadau fel Directgov, Business Link, undebau llafur a chyrff fel Ffederasiwn Busnesau Bach a siambrau busnes lleol oll yn bwysig i'r rheolydd wrth gyrraedd dros filiwn o gyflogwyr sydd angen iddynt gydymffurfio â'r dyletswyddau newydd.

Yn ogystal â gweithio gyda'r partneriaid hyn, bydd y rheolydd yn ysgrifennu at bob un o gyflogwyr Prydain yn unigol er mwyn eu hysbysu ynglŷn â'u dyddiad cymwys a'r hyn fydd angen iddynt wneud er mwyn cydymffurfio.

Gallwch wirio eich dyddiad cymwys dros dro ar wefan y Rheolydd Pensiwn yn www.tpr.gov.uk/staging

Er mwyn canfod mwy ynglŷn â'r newidiadau a'r hyn sydd angen i chi wneud er mwyn dechrau paratoi, ewch www.thepensionsregulator.gov.uk/employers.aspx

Newidiadau i gyfeiriadau CThEM ar gyfer cyflogeion Talu Wrth Ennill

Er mwyn cyflymu'r broses o ddelio â phost rydym wedi newid y cyfeiriadau a ddangosir ar ffurflenni a llythyron Talu Wrth Ennill (TWE) a anfonir at unigolion a chyflogeion i Flychau Swyddfa'r Post.

Bob blwyddyn mae CThEM yn anfon mathau amrywiol o ffurflenni a llythyron at gwsmeriaid sy'n gyflogeion TWE. Dangosai'r ffurflenni a'r llythyron hyn enwau a chyfeiriadau swyddfeydd treth gwahanol. Byddai cwsmeriaid yn defnyddio'r cyfeiriadau hyn wrth ysgrifennu ar CThEM ynglŷn â'u materion treth.

Mae bellach gennym system gyfrifiadur genedlaethol ar gyfer TWE sy'n ein galluogi i reoli gwaith yn genedlaethol, sy'n golygu y gall staff mewn unrhyw leoliad weithio ar gofnodion cwsmeriaid. Nid yw defnyddio enwau a chyfeiriadau swyddfeydd treth gwahanol yn ategu'r hyblygrwydd newydd hwn a gall arwain at oedi wrth ddelio â'r post.

Ar ôl ymgynghori gyda chynrychiolwyr cwsmeriaid, penderfynwyd disodli enwau a chyfeiriadau swyddfeydd treth gyda thri chyfeiriad Blwch Swyddfa'r Post.

Bydd cyflwyno'r newidiadau hyn o fudd i gwsmeriaid yn ogystal â CThEM, a byddant;

- yn ei gwneud yn gliriach i gwsmeriaid at ba gyfeiriad i ysgrifennu
- yn ein cynorthwyo i ymateb i ohebiaeth gan gwsmeriaid yn gyflymach
- yn ein galluogi i ddelio â phost yn fwy effeithlon.

Beth yw'r cyfeiriadau newydd?

Caiff y cyfeiriadau Blwch Swyddfa'r Post eu nodi'n glir ar ffurflenni a llythyron a anfonir ar gwsmeriaid. Sylwer nad yw'r cyfeiriad ar gyfer cyflogeion sy'n gohebu yn Gymraeg wedi newid, sef Canolfan Gyswllt Gymraeg CThEM, Tŷ Moelwyn, Tros y Bont, Porthmadog, Gwynedd. LL49 9NB, na'r rhif ffôn, sef 0845 302 1489.

Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio enwau a chyfeiriadau swyddfeydd treth cyfredol ar gyfer cwsmeriaid sydd â materion treth fwy cymhleth.

Mae'r cyfeiriadau newydd wedi eu seilio ar dri rhif cyntaf eich cyfeirnod TWE:

Cyfeirnod TWE	Cyfeiriad	Rhif ffôn
120, 193, 209, 222, 301, 305, 334, 406, 465, 504, 599, 671, 717, 765, 783, 799, 801, 837, 846, 852, 865, 875, 961, 985	HM Revenue & Customs Pay As You Earn PO Box 1000 Newcastle Upon Tyne NE98 1WY	0845 300 0627
034, 049, 064, 068, 070, 072, 073, 075, 126, 190, 206, 214, 245, 267, 321, 391, 419, 470, 475, 503, 507, 531, 567, 577, 581, 585, 586, 592, 615, 653, 662, 673, 794, 914, 948	HM Revenue & Customs Pay As You Earn PO Box 4000 Cardiff CF14 8HR	
065, 080, 083, 106, 362, 428, 582, 663, 709, 916, 925, 951, 977	HM Revenue & Customs Pay As You Earn PO Box 1970 Liverpool L75 1WX	

erthygl yn parhau >

Beth sydd angen i mi wneud?

Fel cyflogwr mae yna nifer o bethau y gallwch eu gwneud er mwyn cynnal y newid hwn;

- os ydych yn cynnwys yr Enw Swyddfa CThEM opsiynol ar eich ffurflenni P60, defnyddiwch yr enw cyffredinol newydd 'Talu Wrth Ennill/Pay As You Earn'. Os ydych hefyd yn cynnwys gwybodaeth cyfeiriad, defnyddiwch y cyfeiriad newydd
- os yw eich cyflogeion yn gofyn am gyfeiriad neu rif ffôn eu swyddfa dreth, rhowch y cyfeiriad neu'r rhif ffôn newydd iddynt
- os oes gennych wefan sy'n dangos manylion cyswllt CThEM ar gyfer eich cyflogeion, diweddarwch rhain i'r cyfeiriad neu'r rhif ffôn newydd.

Ni fydd y cyfeiriad rydych chi fel cyflogwr yn ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â CThEM yn newid. Mae'r newidiadau'n effeithio ar eich cyflogeion yn unig.

Os na ddangosir eich cyfeirnod TWE uchod dylai eich cyflogeion barhau i ddefnyddio enw a chyfeiriad eich Swyddfa CThEM cyfredol.

Cymorth CThEM ar gyfer Asiantau a Chyfrifwyr

A wyddech chi y gall ein Rheolwyr Cyfrif Asiant (AAM's) gynorthwyo asiantau a chyfrifwyr i ddatrys problemau cyfredol sy'n ymwneud yn benodol â chleientiaid pan fod y sianeli rheolaeth arferol wedi methu? Os ydych yn asiant neu'n gyfrifydd, y cyfan sy'n rhaid i chi wneud er mwyn defnyddio'r gwasanaeth hwn yw cofrestru gan ddefnyddio ein ffurflen gofrestru ar-lein. Dim ond pum munud y mae'n ei chymryd i'w chwblhau. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Gwasanaeth AAM ac er mwyn cwblhau'r ffurflen gofrestru, ewch i www.hmrc.gov.uk/agents/aam.htm

Parhau i ddiddymu cardiau rhif Yswiriant Gwladol yn raddol

Gwnaethom ddweud wrthych ym Mwletin mis Ebrill ein bod yn diddymu'r cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG) plastig ac yn ei ddisodli â llythyr.

Rydym eisoes wedi rhoi'r gorau i anfon cardiau plastig at bobl sy'n gwneud cais am gael un yn lle'r garden wreiddiol. Pan fydd cwsmer yn gofyn i ni gadarnhau beth yw eu rhif YG, rydym bellach yn anfon llythyr atynt. Rydym hefyd wedi rhoi'r gorau i anfon cardiau at oedolion (gweithwyr mudol yn fwyaf) sy'n gwneud cais am rif YG newydd drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Bydd unigolion yn derbyn eu rhif YG nawr mewn llythyr i'w hysbysu gan y Ganolfan Byd Gwaith. Yn ddiweddarach eleni byddwn yn rhoi'r gorau i anfon cardiau rhif YG yn gyfan gwbl.

Wrth i'r cardiau gael eu diddymu, bydd yna nifer cynyddol o bobl a fydd yn derbyn llythyr yn lle hynny. Bydd angen i chi i ystyried hyn wrth gyflogi rhywun newydd.

Os nad yw cyflogai newydd yn gwybod beth yw ei rif/rhif YG, gofynnwch iddynt wirio slip talu blaenorol, P60, neu lythyr gan CThEM neu DWP. Os ydynt yn dal i fethu â chanfod eu rhif:

- dylech eu cynghori i lenwi'r ffurflen 'Your National Insurance number' yn www.hmrc.gov.uk/forms/ca5403.pdf
- gallwch gwblhau'r ffurflen 'Employee's National Insurance trace' yn www.hmrc.gov.uk/forms/ca6855.pdf

Gelli'r llenwi'r ddwy ffurflen ar y sgrin ac yna eu hargraffu cyn eu harwyddo a'u postio atom.

Mae'n dal i fod angen i chi gadarnhau hunaniaeth cyflogai a gwirio bod ganddynt yr hawl i weithio yn y DU. Nid yw peidio â chael cerdyn rhif YG plastig yn gwneud unrhyw wahaniaeth – nid yw'r cerdyn, wrth ei hun, yn dystiolaeth o hunaniaeth na'r hawl i weithio yn y DU.

Os oes arnoch angen gwirio p'un a bod gan rywun yr hawl i weithio yn y DU gallwch ganfod cyngor yn www.businesslink.gov.uk/employmentchecks

Offer TWE Sylfaenol y Cyflogwr

(CD ROM y Cyflogwr yn flaenorol)

Gwnaethom ddweud wrthych yn rhifyn mis Chwefror o'r Bwletin ynglŷn â lansiad adnodd ar-lein newydd i'ch cynorthwyo i redeg eich cyflogres o'r enw offer TWE Sylfaenol (BPT).

Datblygwyd BPT yn unol ag agenda 'Digidol yn Ddiofyn' sy'n darparu ymrwymiad i symud mwy o Wasanaethau'r Llywodraeth ar-lein a lleihau costau'r gwasanaethau rydym eisoes yn eu darparu. Mae BTP nawr yn darparu'r modd o weithredu a'r wybodaeth a ddarparwyd i gyflogwyr yn flaenorol ar CD ROM y cyflogwr.

Mae'r pecyn meddalwedd cyfrifiadurol syml hwn ar gael i'w lawrlwytho o www.businesslink.gov.uk/basicpayetools

Gellir canfod ychydig o'r arweiniad a chyfrifianellau, a oedd yn rhan o'r CD ROM y cyflogwr yn flaenorol, ar naill ai wefan Business Link neu wefan CThEM yn awr. I gadw maint yr Offer cyn lleied â phosib, er mwyn lawrlwytho ac arbed dyblygiad, mae BPT bellach yn rhoi cysylltiadau uniongyrchol i'r adnoddau hyn.

Awgryma adborth a dderbyniwyd hyd yn hyn y cafodd BPT ei groesawu, ac unwaith i'r offer gael eu lawrlwytho a'u gosod, mae cyflogwyr wedi gallu cyflwyno eu Datganiadau Blynyddol y Cyflogwr (ffurflenni P35 a P14) a ffurflenni ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael, yn llwyddiannus ar-lein.

Rydym hefyd yn defnyddio unrhyw adborth er mwyn datblygu a gwella'r offer. Mae diweddariadau diweddar yn cynnwys;

- ailosod cyfrifianellau Treth ac Yswiriant Gwladol dwy flynedd
- arweiniad gwell er mwyn esbonio fod BPT yn cynhyrchu P14 yn awtomatig
- cael gwared ar inc lliw o'r Crynodeb P32
- cysylltiad i gategorïau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) er mwyn eich cynorthwyo â'ch cyflwyno diwedd blwyddyn
- addasu'r cyfrifiannell Tâl Salwch Statudol (SSP) er mwyn mynd i'r afael â phroblemau golygu, talgrynnu a chyfradd
- gwell arweiniad ar gyfer y data wrth gefn yn dilyn cau'n annisgwyl yn ystod y broses diwedd blwyddyn
- gwell ffordd o fwrw golwg ar y nodiadau 'post it' ar hafan BPT
- gwell cyfarwyddiadau gosod ar gyfer defnyddwyr Linux.

Awgrymwn yn gryf eich bod yn defnyddio'r fersiwn diweddaraf o BPT bob tro ac yn cadw'r diweddaru awtomatig ymlaen, sy'n golygu y cewch eich hysbysu bob tro y bydd diweddariad newydd ar gael. Er mwyn gwirio bod diweddaru'n awtomatig ymlaen, mae'n rhaid bod eich cyfrifiadur wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd, yna o'r hafan BPT dewiswch y botwm *'Options'* a dewiswch y tab *'Automatic Update Settings'*. Dylai'r gosodiad gwreiddiol ddynodi 'On' yn y maes *'Automatic Updates'* gydag amledd o *'On start–up of appication'*.

Ffurflenni ac arweiniad y Cyflogwr

Yn rhifyn mis Chwefror o'r Bwletin gwnaethom ddweud wrthych ein bod yn lleihau'r nifer o gynnyrch papur a ddosbarthwyd gennym ac am fod yn rhaid i'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn awr gyflwyno ar-lein, rydym hefyd yn disgwyl eich bod chi'n defnyddio ein ffurflenni ac arweiniad TWE ar-lein sydd ar gael oddi ar ein gwefan yn www.businesslink.gov.uk/paye

Fel opsiwn arall, bydd y twlsyn '*Find a Form*' yn www.hmrc.gov.uk/findaform yn eich helpu i ganfod ffurflenni ar gyfer ystod o bynciau.

Mae hyn yn unol ag agenda 'Digidol yn Ddiofyn' y Llywodraeth sy'n darparu ymrwymiad i symud mwy o Wasanaethau'r Llywodraeth ar-lein a lleihau cost y gwasanaethau rydym yn eu darparu ar hyn o bryd.

Ers hynny rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y nifer o gynnyrch papur a anfonir gan Linell Archebu y Cyflogwr. Mae adborth cwsmer yn ddiweddar wedi cadarnhau bod y rhan fwyaf o gyflogwyr a'u hasiantau yn hapus i wasanaethu eu hunain oddi ar ein gwefan, gydag amryw yn defnyddio'r Offer TWE Sylfaenol, ac maent wedi parhau i fodloni eu hymrwymiadau cyflogres TWE.

Newidiadau posib yn 2012

Rydym yn awr yn ystyried pa fesurau pellach a allai fod yn bosib yn ystod y cyfnod hwn o galedi, fel ein bod yn parhau i ostwng ein costau, yn helpu i ostwng ein hôl troed carbon ac o fudd i'r amgylchedd, drwy ostwng y swm o bapur a ddefnyddir. Yn dilyn ymgynghori dros y misoedd nesaf, rydym yn anelu at;

- leihau'r nifer o fersiynau o rai ffurflenni fel P45 a P60
- gynhyrchu ffurflenni y gellir eu lawrlwytho sy'n haws i'w hargraffu a'u defnyddio, fel y ffurflen P11 ar y wefan
- ddiddymu argaeledd rhai eitemau papur, fel ffurflenni CA6855 a SC2.

Caiff manylion y newidiadau hyn eu cyhoeddi ar dudalenau '*Forms and Publications for employers*' ar wefan Business Link pan gânt eu cyflwyno.

Gwerthfawrogwn eich cydweithrediad ac unrhyw adborth (drwy'r Golygydd fel ag yr amlygir ar dudalen 1, os gwelwch yn dda) yn ystod y cyfnodau newidiol hyn.

Datganiadau Blynyddol y Cyflogwr - Rhai negeseuon allweddol

A ydych chi wedi anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr 2010-11 eto?
Cyflwynodd dros 1.6 miliwn o gyflogwyr eu Datganiad Blynyddol y Cyflogwr 2010-11 ar-lein yn llwyddiannus erbyn y dyddiad dyledus 19 Mai 2011. Os nad ydych wedi anfon eich un chi atom eto, mae'n dal i fod arnom angen clywed gennych! Os oes angen i chi anfon Datganiad atom (am y cafodd Taflen Waith Didyniadau ei chwblhau'r llynedd ar gyfer o leiaf un cyflogai) mae'n rhaid i chi ei anfon cyn gynted â phosib. Codir cosbau ar gyfer pob mis pan fo'r Datganiad yn parhau'n orddyledus. Mae'n bwysig i ni gael eich Datganiad hefyd fel ein bod yn gallu diweddaru cofnodion eich cyflogeion.

Bydd cosb yn ddyledus os yw'ch Datganiad yn hwyr, ond y cynharaf y gallwch gyflwyno eich Datganiad, y lleiaf y bydd y gosb derfynol.

Dim Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (ffurflenni P35 a P14) ar gyfer 2010-11
Os na fu'n rhaid i chi gwblhau Taflen Waith Didyniadau P11 (neu gofnod didyniadau cyfatebol at ddibenion cyflogres) yn ystod y flwyddyn dreth 2010-11, ni fydd angen i chi anfon Datganiad Blynyddol y Cyflogwr atom. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym cyn gynted â phosib er mwyn i ni fedru diweddaru ein cofnodion ac arbed anfon nodion atgoffa a hysbysiadau cosb dianghenraid.

Y ffordd rwyddaf a mwyaf dibynadwy o'n hysbysu yw drwy fynd i www.businesslink.gov.uk/noemployerreturn a defnyddio un o'r ddwy ffurflen ar-lein strwythuredig. Mae yna ffurflen ar gyfer cyflogwyr ac un ar gyfer asiantau sy'n datgan ar ran eu cleientiaid (i fyny hyd at uchafswm o wyth cyflogwr y ffurflen). Gwnewch dderbyn ymateb drwy e-bost yn cadarnhau y derbyniwyd eich ffurflen ar-lein. Yn eithriadol, os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch ddweud wrthym drwy gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt Gymraeg ar 0845 3023 1489.

Diwygiad i'r nodyn P2 ar Hysbysiad Cod P2

Fel y byddwch eisoes, o bosib, yn ymwybodol, mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth (SPa) ar gyfer merched yn newid. Er mwyn cymhwyso'r newidiadau hyn, diwygiwyd y nodyn Yswiriant Gwladol P2 a anfonir at gyflogeion er mwyn dweud na ddylid didynnu cyfraniadau Yswiriant Gwladol o'r dyddiad pryd y cyrhaeddir SPa. Mae'n cynghori cyflogeion yn ogystal, os ydynt yn meddwl bod cyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi'u didynnu yn anghywir yna dylent ofyn i'w cyflogwr eu gwirio iddynt.

Pan fod cyflogai'n derbyn taliad ar ffurf gwarantau sy'n gysylltiedig â'r gyflogaeth ar ôl gadael

Mae taliadau sy'n gysylltiedig â gwarantau sy'n gysylltiedig â'r gyflogaeth, gan gynnwys taliadau mewn arian sy'n codi o'r gwarantau hynny, a wneir i gyflogai ar ôl gadael, yn parhau i gael eu trethu ar y Gyfradd Sylfaenol (BR) anghronnus (Wythnos 1/Mis 1).

Caiff taliadau eraill a wnaed ar ôl gadael eu trethu gan ddefnyddio cod 0T ar sail anghronnus.

Ar 6 Ebrill 2011 gwnaethom gyhoeddi neges 'beth sy'n newydd' ar ein gwefan yn www.hmrc.gov.uk/paye/paye-regchange.htm a oedd yn cynnwys manylion y newid hwn.

Gwybodaeth o bwys

Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Cynnydd yng nghyfraddau Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW)

Mae'r Llywodraeth wedi derbyn argymhelliad gan y Comisiwn Cyflogau Isel i'r cyfraddau Isafswm Cyflog Cenedlaethol gael eu cynyddu o 1 Hydref 2011 fel â chanlyn:

	Cyfradd yr Awr ar hyn o bryd	Cyfradd yr Awr o 1 Hydref 2011
Prif gyfradd ar gyfer gweithwyr 21 oed a hŷn	£5.93	£6.08
Cyfradd ar gyfer gweithwyr oed 18-20	£4.92	£4.98
Cyfradd ar gyfer gweithwyr oed 16-17	£3.64	£3.68
*Cyfradd ar gyfer prentisiaid	£2.50	£2.60

*Daeth y gyfradd ar gyfer prentisiaid i rym ar gyfer cyfeirnodau cyfnod treth yn dechrau ar neu ar ôl 1 Hydref 2010. Mae'n daladwy ar gyfer prentisiaid o dan 19 a thros 19 ac ym mlwyddyn gyntaf eu prentisiaeth. Ar ôl hynny, dylid talu prentisiaid ar y gyfradd sy'n gymwys i'w hoedran.

Bydd y cyfraddau gosod yn erbyn llety'n cynyddu'n ogystal o 1 Hydref 2011 i:

Cyfradd ddyddiol	£4.73
Uchafswm wythnosol	£33.11

Myfyrwyr a gosod yn erbyn llety

Yn gynharach eleni fe wnaeth y Llywodraeth ymgynghori ynglŷn â chymhwysiad gosod yn erbyn llety yr isafswm cenedlaethol, i fyfyrwyr amser llawn ar gyrsiau addysg bellach neu addysg uwch sydd hefyd yn gweithio rhan-amser i'w sefydliad addysg. O ganlyniad, yn ddibynnol ar gymeradwyaeth seneddol, caiff y rheoliadau isafswm cyflog cenedlaethol eu diwygio o 1 Hydref 2011 fel na fydd gosod yn erbyn llety yn gymwys yn y sefyllfaoedd hyn.

Cynllun i enwi cyflogwyr sy'n diystyru cyfraith isafswm cyflog cenedlaethol

Daeth cynllun newydd i enwi cyflogwyr sy'n diystyru cyfraith isafswm cyflog cenedlaethol i rym ar 1 Ionawr 2011. Bydd cyflogwyr sy'n bodloni meini prawf cyhoeddedig yn cael eu henwi gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) mewn datganiad i'r wasg. Gellir canfod mwy o wybodaeth ynglŷn â'r cynllun enwi, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer enwi, ar wefan NMW BIS yn: www.bis.gov.uk/nmw

Arweiniad newydd ynglŷn â phrofiad gwaith ac interniaeth

Bydd y llywodraeth yn cyhoeddi arweiniad wedi'i ddiweddaru cyn hir er mwyn ei gwneud yn glir pryd fod gan unigolion sy'n ymgymryd â phrofiad gwaith, gan gynnwys interniaeth, yr hawl i'r isafswm cyflog. Mae'r llywodraeth eisiau i gymaint o gyfleoedd profiad gwaith ac interniaeth â phosib i fod ar gael ar gyfer pobl ifanc dalentog o bob cefndir. Ni ddylai pob cyfle profiad gwaith/interniaeth fod yn talu, ond mae'r llywodraeth yn glir y dylai'r rhai hynny sydd â'r hawl i isafswm cyflog cenedlaethol ei dderbyn. Dylai pob cyflogwr felly sy'n cynnig, neu'n ystyried cynnig, profiad gwaith neu interniaethau ystyried yr hawl i'r isafswm cyflog cenedlaethol yn ofalus. Bydd yr arweiniad a ddiweddarwyd a rhestr wirio'r gweithiwr yn amlinellu'r math o bethau y dylai cyflogwyr eu hystyried, wrth ystyried os oes gan rywun sy'n ymgymryd â phrofiad gwaith/intern yr hawl i gael eu talu o leiaf yr isafswm cyflog cenedlaethol, a bydd ar gael o www.businesslink.gov.uk/nmw

Rheoliadau Gwyngalchu Arian (MLR) 2007 – A oes angen i chi neu'ch cleientiaid fod wedi cofrestru â CThEM?

Mae'n bosib y bydd angen i chi fod wedi cofrestru â CThEM os ydych yn:

Busnes Gwasanaeth Ariannol (MSB)

Mae hyn yn cynnwys ***Trosglwyddwyr Arian*** sy'n trosglwyddo arian rhwng y DU a chwsmeriaid tramor

Swyddfeydd Cyfnewid Arian sy'n darparu cynnyrch cyfnewid tramor i gwsmeriaid personol yn ogystal â chwsmeriaid busnes (Bureau de Change) neu

Busnes Newid Siec sy'n newid sieciau trydydd parti.

Deliwr Gwerth Uchel

Mae hwn yn unrhyw fusnes sy'n barod i dderbyn 15,000 Ewro neu'n fwy (neu gyfwerth **mewn unrhyw arian cyfred**) mewn arian ar gyfer nwyddau mewn taliad sengl neu fesul rhandaliadau.

Ymddiriedolaeth neu Ddarparwyr Gwasanaethau Cwmni

Ystod eang o weithgareddau busnes sy'n cynnwys asiantau ffurfio cwmni, ffurfio ymddiriedolaeth, rhai busnesau blwch post, cyflenwyr swyddfeydd cofrestredig a chyfeiriadau gohebu, cyfranddalwyr enwebedig a chyfarwyddwyr a rhai ymddiriedolwyr.

Darparwyr Gwasanaethau Cyfrifo (ASPs)

Unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau cyfrifo neu gyngor treth ac mae hyn yn cynnwys llyfrifwyr, ymgynghorwyr treth hunangyflogedig ac archwilwyr ac asiantau'r gyflogres na chaiff eu goruchwylio gan gorff proffesiynol.

Gallwch ganfod rhestr o'r holl Oruchwylwyr a Chyrff Proffesiynol MLR 2007 yn ein Harweiniad Cofrestriad MLR9 ynghyd ag Arweiniad Penodol y Sector Gwrth Wyngalchu Arian ar ein gwefan yn www.hmrc.gov.uk/mlr

Dylai Darparwyr Gwasanaethau Cyfrifo ddilyn Arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol Darparwyr Cyfrifyddiaeth (CCAB) yn www.ccab.org.uk

Os nad ydych yn siŵr a yw'ch busnes yn dod o dan unrhyw un o'r uchod gallwch ganfod mwy ynglŷn â'r gweithgareddau a wneir yn nodweddiadol gan y busnesau hyn (gan gynnwys unrhyw eithriadau) drwy fwrw golwg ar ein harweiniad. Gallwch hefyd gysylltu â ni ar gyfer gwybodaeth, cymorth a chyngor drwy ein e-bostio yn MLRCIT@hmrc.gsi.gov.uk

Tâl Salwch Statudol: Trosolwg

Caiff Tâl Salwch Statudol (SSP) ei dalu i gyflogeion sy'n methu â gweithio o achos salwch. Caiff SSP ei dalu ar yr un adeg ac yn yr un modd ag y byddech yn talu cyflogau ar gyfer yr un cyfnod.

Ymrwymiadau Cyflogwr

Fel cyflogwr rydych yn gyfrifol am weithredu cynllun SSP. Bydd angen i chi:

- bennu p'un a yw cyflogai'n bodloni'r amodau cymwys
- gyfrifo faint o SSP sy'n ddyledus
- dalu SSP i'ch cyflogeion
- gadw cofnod o'r SSP rydych yn ei dalu.

Os ydych yn parhau i dalu eu cyflog cyffredin i'ch cyflogeion pan na allant weithio o achos salwch – a'ch bod yn talu o leiaf cymaint iddynt â'r SSP y byddai ganddynt yr hawl iddo – nid oes yn rhaid i chi weithredu'r cynllun SSP. Mae angen i chi dalu SSP i gyflogai os ydynt yn bodloni'r amodau cymwys a amlygir isod yn unig.

Amodau cymwys

Mae'n rhaid i gyflogai fodloni'r holl amodau canlynol er mwyn cael SSP:

- Mae'n rhaid taw eich cyflogai chi ydyw – a bydd angen iddo/iddi fod wedi gwneud ychydig o waith o dan ei gytundeb/chytundeb gwaith cyn mynd o'r gwaith yn sâl
- Mae'n rhaid bod y dyddiau pan eu bod o'r gwaith yn sâl yn ffurfio rhan o 'gyfnod analluogrwydd ar gyfer gwaith' (PIW)
- Mae'n rhaid bod y dyddiau y mae'n derbyn SSP ar eu cyfer yn ddyddiau cymwys – dyma'r dyddiau pan fyddent fel arfer yn gweithio
- Mae'n rhaid bod eu henillion o leiaf cymaint â'r Terfyn Enillion Is ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG). £102 yr wythnos yw hwn ar gyfer 2011-12
- Ni allant eisoes fod wedi derbyn uchafswm yr SSP ar gyfer y PIW – neu ar gyfer cyfres o PIWs cysylltiedig (28 wythnos)
- Mae'n rhaid eu bod wedi eich hysbysu ynglŷn â'u salwch – naill ai o fewn eich terfyn amser eich hun neu o fewn saith diwrnod
- Mae'n rhaid iddynt roi tystiolaeth i chi o'u hanalluogrwydd, os oes ei hangen arnoch.

Rheoli absenoldeb o achos salwch

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogeion beth rydych yn disgwyl iddynt ei roi i chi fel tystiolaeth o analluogrwydd at ddibenion SSP a phryd rydych yn disgwyl iddynt ei roi.

Fel cyflogwr, mae'r penderfyniad ynglŷn â p'un ai bod angen tystiolaeth o salwch neu beidio, ac os felly, pa dystiolaeth sy'n dderbyniol, yn eich dwylo chi yn y pen draw.

Gall eich cyflogeion hunanardystio cyfnodau salwch i fyny hyd at saith diwrnod. Gallant wneud hyn gan ddefnyddio ffurflen SC2 *Hysbysiad o salwch gan y cyflogai* neu eich ffurflen gyfwerth eich hun.

Os yw'r absenoldeb oherwydd salwch yn para mwy na saith diwrnod mae'n rhaid i'ch cyflogai eich darparu â thystiolaeth ddigonol o analluogrwydd ar gyfer gwaith, os oes ei hangen arnoch.

Cofiwch fod nodyn ffitrwydd meddyg yn dystiolaeth gref o analluogrwydd ac fel arfer dylid ei dderbyn fel bod yn bendant heblaw bod yna dystiolaeth fwy grymus i'r gwrthwyneb.

Os oes gennych amheuon cryf ynglŷn â salwch eich cyflogai gallwch ofyn i feddyg adolygu eu hanalluogrwydd. Os nad oes gennych eich meddyg gwaith eich hun, gallwch ofyn am gymorth gan Wasanaethau Meddygol drwy CThEM.

erthygl yn parhau >

Os ydych yn dymuno cael cyngor gan Wasanaethau Meddygol, dylech ysgrifennu at:

Cyllid a Thollau EM
Canolfan Gyswllt Cymraeg
Tŷ Moelwyn
Tros-y-Bont
Porthmadog
Gwynedd LL49 9NB

gan esbonio eich bod am gael cymorth Gwasanaethau Meddygol ynglŷn â'ch cyflogai.

Bydd adroddiad Gwasanaethau Meddygol yn mynegi barn ynglŷn â ffitrwydd eich cyflogai yn ei swydd gyda chi. Gwnaiff hyn eich cynorthwyo i benderfynu os yw'r cyflogai yn analluog i weithio yn eu swydd gyda chi neu beidio.

Os oes angen cyngor a chymorth arnoch i helpu gyda chyflogai sy'n profi problemau iechyd yn y gweithle, ac nid oes gennych fynediad i adnoddau dynol mewnol neu wasanaethau iechyd galwedigaethol, mae'n bosib y dymunwch gysylltu â'r gwasanaeth cynghori ar iechyd galwedigaethol i fusnesau bach. Maent yn darparu cymorth wedi'i addasu, proffesiynol a chyfrinachol ynglŷn ag iechyd a lles yn y gwaith i gyflogwyr mewn busnesau o faint bach a chanolig, er mwyn ceisio cadw cyflogai yn y gwaith a'i gynorthwyo/cynorthwyo i ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted â phosib. Mae gwybodaeth bellach ar gael o www.businesslink.gov.uk/workingforhealth

Er mwyn cyrchu cyngor ar iechyd a les yn y gweithle, gallwch gysylltu â'r canlynol:

Lloegr: *Health for Work Adviceline*, ffôn 0800 0 77 88 44, neu ewch i www.health4work.nhs.uk

Yr Alban: *Healthy Working Lives Adviceline*, ffôn 0800 019 2211, neu ewch i www.healthyworkinglives.com

Cymru: Iechyd ar Waith, Llinell Gymorth Cymru, ffôn 0800 107 0900, neu ewch i www.healthyworkingwales.com/splash_wales/cy.html

Cymorth a chyngor

Gwnewch ganfod rhestr o dermau SSP yn yr E14 *Employer Helpbook for Statutory Sick Pay* yn www.hmrc.gov.uk/helpsheets/e14.pdf

Darllenwch am reoli absenoldeb a salwch ar wefan Business Link yn www.businesslink.gov.uk/bdotg/action/layer?topicId=1074209970&r.s=sl

Mae'n bosib y dymunwch nodi'n ogystal bod yna adolygiad annibynnol yn parhau ynglŷn ag absenoldeb oherwydd salwch. Gallwch ganfod mwy o fanylion ynglŷn â hyn yn www.dwp.gov.uk/policy/welfare-reform/sickness-absence-review/

Nodion Ffitrwydd Electronig

Gan ddechrau ar ddiwedd mis Medi 2011 gall nifer cynyddol o Feddygon Teulu gwblhau'r Datganiad o Ffitrwydd ar gyfer Gwaith (a elwir hefyd yn nodyn ffitrwydd neu'r Datganiad Meddygol) yn electronig. Drwy hyn gall Meddygon Teulu gwblhau'r nodyn ffitrwydd ar eu cyfrifiadur ac yna'i argraffu a'i anfon at eu cleifion. Ni all Meddygon Teulu, fodd bynnag, eu hanfon yn electronig at gyflogwyr neu gleifion. Ar gyfer cyflogwyr, golyga y gallech ddechrau derbyn nodion ffitrwydd argraffedig â chyngor y Meddyg Teulu yn ogystal â'r ffurflenni cyfredol mewn llawysgrifen. Ni chaiff unrhyw un o'r rheolau ar gyfer tystiolaeth feddygol, nodion ffitrwydd neu Dâl Salwch Statudol eu newid gan gyflwyniad y ffurflen gyfrifiadurol; gellir canfod arweiniad a gwybodaeth bellach yn www.dwp.gov.uk/fitnote

Taliadau Statudol a Chytundebau Cyfaddawdu

Pan fod cyflogaeth yn dod i ben, mae'n bosib y bydd gan gyflogai hawliadau posib yn erbyn y cyflogwr. Er enghraifft, mae'n bosib na thalwyd cyflog yn llawn, neu gallai'r cyflogai deimlo nad yw'r cyflogwr wedi darparu hawliau cyfreithiol a gyflwynwyd gan ddeddfwriaeth cyflogaeth.

Unionir y materion hyn yn aml gyda chytundeb sengl, sy'n aml yn cael ei ddisgrifio fel "cytundeb cyfaddawdu". Caiff y cytundebau hyn yn aml eu drafftio er mwyn sicrhau na all cyflogai fwrw ymlaen â hawliadau pellach.

Pan fod gan gyflogai'r hawl i Daliad Statudol, gallai'r cyflogwr geisio cynnwys hwnnw fel rhan o'r cytundeb cyfaddawdu. Mae ein Tîm Anghydfodau Taliadau Statudol wedi gweld nifer o achosion yn ddiweddar pan fod yr anghydfod yn ymwneud â p'un ai talwyd Taliad Statudol neu beidio mewn gwirionedd.

Mae'n bosib y dymunwch nodi'r egwyddorion sylfaenol canlynol sy'n rheoli'r hawl i Daliadau Statudol ac yn sicrhau y cânt rym mewn unrhyw gytundeb y ceisiwch ei gyrraedd â'ch cyflogai/cyflogeion.

Am fod yr achosion rydym wedi eu gweld yn ddiweddar yn ymwneud â Thâl Mamolaeth Statudol (SMP), mae'r wybodaeth ganlynol yn perthyn yn uniongyrchol i SMP. Fodd bynnag, mae'r un egwyddorion cyffredinol yn perthyn i bob Taliad Statudol.

Hawl cyfreithiol i SMP

Mae'r brif ddeddfwriaeth ar gyfer SMP ar gael yn Rhan XII o'r Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (SSCBA). Pan fod merch yn, neu wedi bod yn gyflogai ac yn bodloni'r amodau yn adran 164 o SSCBA mae ganddi'r hawl i dderbyn SMP.

Mae'r hawl i SMP felly'n fater sy'n unol â'r gyfraith ac mae'n rhaid ei dalu i'r cyflogai, cyn belled ag y bodlonir yr amodau cymwys. Am fod yna hawl cyfreithiol, dylai'r cyflogai dderbyn yr SMP ei hun. Ni all dderbyn rhywbeth sy'n cymryd lle ei SMP, gan gynnwys iawndal.

Mae Adran 164 o'r SSCBA yn diddymu unrhyw gytundeb sy'n ceisio eithrio, cyfyngu neu, fel arall, addasu'r hawl i SMO. Mae unrhyw gytundeb lle nad yw cyflogai yn derbyn ei SMP o ganlyniad, felly, yn ddi-rym yn ôl y gyfraith.

Yr unig eithriad i hyn yw pan fod cytundeb yn awdurdodi didyniadau SMP sy'n cyd-fynd â'r didyniadau y mae'r cyflogwr wedi'i awdurdodi i'w gwneud o daliadau cytundebol yn yr un cyfnod.

Pan fod gan gyflogai hawl cyfreithiol i SMP, ni all yr hawl hynny felly gael ei leihau neu ei ddiddymu gan gytundeb. Ni all y cyflogai gytuno hefyd, o ganlyniad i dderbyn taliad gan y cyflogwr, na fydd yn bwrw ymlaen i hawlio SMP. Bydd cytundeb o'r fath yn ddi-rym ac o ganlyniad, bydd ei hawl cyfreithiol i dderbyn SMP yn parhau.

erthygl yn parhau >

Hysbysiad o newid trothwy ar gyfer benthycwyr Benthyciadau Myfyrwyr sy'n rhan o'r cynllun Ad-dalu'n Amodol ar Incwm (ICR) cyfredol

Cytundebau Cyfaddawdu

Mae'n rhaid i gyflogai felly dderbyn ei hawl cyfreithiol i SMP ac **mae'n rhaid talu'r SMP mewn modd sy'n dryloyw.** Ni fydd unrhyw gytundeb cyfaddawdu sy'n talu rhywbeth heblaw ei SMP gwirioneddol iddi yn bodloni'r hawl hynny.

Gall gytundeb cyfaddawdu ddefnyddio termau fel:

- Yn lle'r hawl i SMP
- Mewn cydnabyddiaeth o'r hawl i SMP
- Iawndal am yr hawl i SMP.

Posibilrwydd arall yw na fydd unrhyw sôn am SMP, a'r cytundeb, o bosib, yn cyfeirio'n syml at daliad iawndal cyffredinol sy'n delio â phob mater sydd heb ei fodloni.

Os ydych yn llunio cytundeb gyda chyflogai yn y termau hyn, mae'n bosib nad ydych wedi bodloni eich ymrwymiad i dalu SMP a bydd hawl y cyflogai yn parhau. Yn arbennig, ni all taliad sy'n cael ei adnabod fel bod yn un "ex gratia" fod yn daliad o SMP am nad yw'r bosib i fodloni gofyniad cyfreithiol drwy daliad ex gratia.

Os fyddwch yn ceisio cynnwys SMP mewn unrhyw gytundeb setliad, mae'n rhaid i chi sicrhau mai'r SMP ei hun a gaiff ei dalu, wedi ei gyfrifo'n gywir yn unol â hawl cyfreithiol y cyflogwr a'i amlygu'n glir fel SMP yn y cytundeb. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw amheuaeth ynglŷn â p'un a fodlonwyd eich ymrwymiad i dalu SMP.

Am y caiff taliadau SMP eu trin fel enillion at ddibenion treth a CYG, dylech sicrhau'n ogystal y bodlonir yr ymrwymiadau treth a CYG pan fyddwch yn gwneud y fath daliadau i gyflogai.

Cesglir Benthyciadau Myfyrwyr pan fod incwm cyflogai yn cyrraedd lefel (trothwy) arbennig. Mae rheoliadau bellach wedi dod i rym sy'n datgan, o 6 Ebrill 2012 y bydd y trothwy ad-dalu yn codi'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI).

Mae'r trothwy cyfredol o £15,000 wedi bod yn gymwys ar gyfer benthycwyr Benthyciadau Myfyrwyr sy'n ad-dalu ers 6 Ebrill 2005, ac wedi ei ddefnyddio gan gyflogwyr wrth gyfrifo didyniadau benthyciadau myfyrwyr oddi ar gyflog.

Mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau bellach wedi cadarnhau, o 6 Ebrill 2012, y bydd y trothwy ad-dalu yn cynyddu gan 5.3% i £15,795 – dyma'r ffigur a fydd yn gymwys ar gyfer pob cyflogai sy'n ad-dalu benthyciadau myfyrwyr ar, ac o'r dyddiad hynny ymlaen.

Hysbysir datblygwyr meddalwedd cyn gynted â phosib fel y gwneir newidiadau meddalwedd yn barod i'w rhoi ar waith ar 6 Ebrill 2012. Caiff ein Hoffer TWE Sylfaenol a chyfrifianellau eu hadolygu'n ogystal. Bydd gwybodaeth ac arweiniad pellach yn dilyn yn ystod y misoedd nesaf.

Gwybodaeth P46 ynglŷn â benthyciadau myfyrwyr

Ar gyfer cyflogwyr sy'n defnyddio neu'n cael gwybodaeth P46 ar gyfer cyflogeion newydd sydd heb P45, a fyddech cystal â gofyn i gyflogeion newydd i dalu sylw arbennig i'r adran didyniadau benthyciadau myfyrwyr (adran D) a'u hatgoffa mai dim ond o dan yr amgylchiadau a amlinellir y dylid ticio'r blwch ac unwaith eu bod wedi dechrau ad-dalu eu benthyciad myfyriwr mewn gwirionedd.

Gallwch archebu P46 drwy ffonio'r Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar 0845 302 1489.

Symudwch i TAW Ar-lein nawr

Yn ôl cynlluniau cyfredol, o 1 Ebrill 2012 bydd yn rhaid i bron â bod pob busnes TAW gyflwyno eu Ffurflenni TAW Ar-lein a thalu unrhyw TAW sy'n ddyledus yn electronig.

Os, felly, eich bod yn dal i gyflwyno ar bapur, **ewch ati yn awr** ac ymunwch â dros 1.75 miliwn o gwsmeriaid TAW (dros 80% o'r cyfanswm) sydd eisoes yn cyflwyno eu Ffurflenni TAW ar-lein.

Mae'r Ffurflen TAW ar-lein yn debyg iawn i'r un bapur (mae ganddi'r un blychau, yn yr un drefn) ond bod ganddi un fantais amlwg – caiff blychau 3 a 5 eu cyfrifo'n awtomatig ar eich cyfer a'u nodi ar eich rhan (yn seiliedig ar y ffigurau a gofnodir gennych ym mlychau 1, 2 a 4). Gofynnir i chi i wirio'r Ffurflen TAW wedi'i chwblhau, er mwyn sicrhau ei bod yn hollol gywir, cyn eich bod yn ei hanfon atom ar-lein. Gallwch hefyd argraffu copi o'ch Ffurflen wedi'i chwblhau, os dymunwch ei chadw â gweddill eich cofnodion.

Mae'n teimlo fel petai Ebrill 2012 yn bell i ffwrdd – ond mae'n gwneud synnwyr i fynd ati'n awr, i ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth ar-lein ac i fod yn gyffyrddus â chyflwyno ar-lein erbyn bod y terfyn amser yn cyrraedd. Awgrymwn yn gryf eich bod yn **ymuno nawr**.

Dechrau arni

Er mwyn cyflwyno ar-lein, bydd angen i chi ymrestru'n gyntaf oll ar gyfer gwasanaethau TAW Ar-lein (dim ond unwaith y byddwch yn gwneud hyn). Er mwyn ymrestru:

- Bydd angen i chi i nodi gwybodaeth sy'n benodol i'ch busnes ac yn wybyddus i chi'n unig (fel ffigurau o'ch ffurflen TAW ddiwethaf). Dyfais ddiogelwch yw hon, er mwyn sicrhau na all rhywun gyrchu eich gwybodaeth ar ôl hynny.
- Bydd angen i chi wybod beth yw'r 'Dyddiad pan ddaw cofrestru ar gyfer TAW i rym' (EDR) ar eich cyfer er mwyn gallu ymrestru ar gyfer y gwasanaeth TAW ar-lein – mae'r dyddiad hwn ar eich VAT4 (Tystysgrif Cofrestru). Os ydych wedi colli neu gamosod eich VAT4, gallwch ofyn i ni e-bostio'r EDR yn ôl atoch gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein yn www.hmrc.gov.uk/online-services-questions (mae'n rhaid i chi gwblhau darnau 'gofynnol' penodol o wybodaeth ar y ffurflen er mwyn i ni fedru gwneud hyn).

Unwaith eich bod wedi ymrestru'n llwyddiannus ar gyfer gwasanaethau TAW ar-lein, gallwch gyflwyno eich Ffurflenni TAW ar-lein ar unwaith, os ydych yn dymuno gwneud.

- Mae mynd ar-lein yn syml, ond os oes angen cymorth arnoch, gwnewch ganfod peth offer cymorth defnyddiol ar ein gwefan. Rydym wedi cynhyrchu dau arweiniad dechreuwr ar gyfer ymuno a chyflwyno ar-lein ar gyfer TAW yn www.hmrc.gov.uk/vat/sign-up-for-online.pdf a www.hmrc.gov.uk/vat/online-return.pdf Mae yna ddangosydd ar-lein yn ogystal yn www.hmrc.gov.uk/demo sy'n rhoi blas i chi o sut y mae'r gwasanaeth ar-lein yn edrych, sut y mae'n gweithio a'r hyn y gallwch ei wneud ar-lein.
- Bydd angen i chi yn ogystal i feddwl a phenderfynu ynglŷn â'r dull talu electronig sy'n gweddu orau ar gyfer eich busnes. Mae'n bosib y bydd angen amser arnoch er mwyn sefydlu'r rhain – yn enwedig os ydych yn dymuno talu drwy Ddebyd Uniongyrchol ar-lein (sy'n rhoi'r amser hiraf i chi i dalu) neu Giro Banc (sy'n eich galluogi i dalu mewn arian neu drwy siec mewn banc neu gymdeithas adeiladu sy'n rhan o'r cynllun). Ewch i'n gwefan i gael mwy i wybodaeth ynglŷn â'r dulliau amrywiol o daliadau electronig yn www.hmrc.gov.uk/payingvat

Mae Business Link yn gwella

Bydd Business Link www.businesslink.gov.uk adnodd ar-lein y llywodraeth ar gyfer busnesau, yn profi newidiadau pwysig yn hwyrach yr hydref hwn.

Mae'r Llywodraeth wedi datgan bod y gwasanaeth cynghori Business Link lleol yn Lloegr i gau ym mis Tachwedd ac yn anelu at wella'r wefan wrth i'r gwasanaeth hwnnw gael ei ddiddymu.

Mae www.businesslink.gov.uk yn cynnwys gwybodaeth hanfodol, cymorth a gwasanaethau i bobl sydd mewn busnes fel corfforiad cwmni ar-lein ac *Employer Direct* ar-lein. Daw ystod o welliannau i'r safle ym mis Tachwedd a fydd yn darparu offer allweddol ar gyfer y busnesau hynny â'u bryd ar wella a thyfu, yn ogystal ag ystod o gymorth ychwanegol ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno dechrau mewn busnes.

Cymorth helaeth i gynorthwyo busnesau i dyfu

Ym mis Tachwedd 2011 bydd Business Link yn lansio gwasanaeth newydd i gynorthwyo busnesau sydd am dyfu, datblygu a gwella. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cynnwys offer rhyngweithiol i gynorthwyo busnesau i gynllunio ar gyfer llwyddiant, cronfa ddata o gynlluniau cynorthwyo busnesau sy'n hawdd i'w defnyddio, digwyddiadau ar-lein a modd cyflym o gyrchu digwyddiadau busnes lleol a rhwydweithio rhwng cyfoedion, yn ogystal â chysylltiadau i gymorth arall ar gyfer busnesau.

Helpu pobl i ddechrau busnes

Ym mis Tachwedd 2011 hefyd, bydd Business Link yn cynnig gwasanaethau newydd ac wedi'u gwella er mwyn helpu pobl i ddechrau mewn busnes. Bydd yr adran Dechrau hon yn cynnwys rhestr wirio bersonol o dasgau dechrau, tiwtorialau e-ddysgu fesul tamaid (*bite-sized*) ac astudiaethau achos ar fideo.

Cynnwys a gwasanaethau symlach, sy'n haws i'w defnyddio

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, symudodd cynnwys 175 o wefannau'r llywodraeth o businesslink.gov.uk, gan ychwanegu dros gant o offer rhyngweithiol a dwy fil o ganllawiau. Byddwn yn adolygu'r cynnwys ar y safle er mwyn helpu i'w wneud yn haws i fusnesau ganfod yr hyn sydd angen arnynt, gan greu gwell gwasanaeth ar gyfer ein cwsmeriaid.

Sicrhewch ei ch bod yn dal i allu derbyn hysbysiadau cod yn electronig o fis Hydref 2011

A yw eich meddalwedd cyflogres yn ymdrîn â hysbysiadau gan CThEM – fel hysbysiadau cod P6/P9, neu hysbysiadau dechrau a stopio Benthyciadau Myfyrwyr? Ym mis Hydref 2010 cyflwynodd CThEM newid i'n Gwasanaeth Cyflenwi Data (DPS). Gwnaethom newid y cyfeiriad a ddefnyddia'r feddalwedd er mwyn adalw'r wybodaeth hon. Os yw eich meddalwedd yn cael yr hysbysiadau hyn gan y DPS, dylai eich darparwr bellach fod wedi cynnwys y newid hwn yn y fersiwn diweddaraf.

Er mwyn bod yn siŵr y gallwch barhau i dderbyn yr hysbysiadau hyn o fis Hydref 2011, dylech wirio yn awr bod eich meddalwedd wedi'i diweddaru. Os oes gennych amheuaeth, cysylltwch â'ch darparwr meddalwedd. Byddant yn gallu cynghori:

- p'un a bod eich meddalwedd wedi'i heffeithio gan y newid hwn,
- os ydynt eisoes wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol, ac
- unrhyw gamau sy'n rhaid i chi i'w cymryd, o bosib, er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i dderbyn yr hysbysiadau hyn.

Gwasanaeth Canfyddwr Contractau newydd

Dewch o hyd i ddogfennau tender caffael sector gyhoeddus a chytundeb.

Mae Canfyddwr Contractau yn wasanaeth rhad ac am ddim ar gyfer busnesau, prynwyr llywodraeth ganolog a'r cyhoedd. Gellir ei gyrchu drwy www.businesslink.gov.uk/contractsfinder ac erbyn hyn dyma'r brif ffynhonnell ar gyfer cyfleoedd caffael y llywodraeth gyda gwerth sy'n uwch na £10,000. Gallwch ddefnyddio Canfyddwr Contractau'n ogystal i gyrchu a chwilio am ddogfennau tender a dogfennaeth caeedig a gyhoeddir gan adrannau o'r llywodraeth ac asiantaethau.

Lansiwyd Canfyddwr Contractau gan y Prif Weinidog ar 11 Chwefror 2011. Mae'r gwasanaeth yn un o nifer o fesurau ymarferol a gymerwyd gan y llywodraeth er mwyn bod yn fwy agored a thryloyw, fel ei fod yn atebol ac yn darparu gwell gwerth arian.

Dywedodd y Prif Weinidog yn y digwyddiad lansio yn y Trysorlys yn Llundain bod y Llywodraeth yn benderfynol o wneud caffael llywodraethol "yn fwy croesawgar" ar gyfer mentrau bach yn ogystal â rhai o faint canolig. Dywedodd mai nod y llywodraeth yw sicrhau bod o leiaf cyfran o 25 y cant o gytundebau'r llywodraeth yn cael eu dyfarnu i fusnesau bach.

Cyflenwyr – Sefydlu hysbysiadau e-bost

Gall cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r safle ddewis derbyn e-byst hysbysu gan gofrestru drwy Borth y Llywodraeth yn www.businesslink.gov.uk – mae'n rhad ac am ddim ac ond yn cymryd ychydig o funudau. Os ydych eisoes wedi cofrestru ar gyfer cyflwyno ar-lein dylech fod yn gallu defnyddio'r gwasanaeth yn syth.

Cwrs newydd 'Ennill y Cytundeb'

Mae'r wefan learndirect bellach yn cynnig cwrs ar-lein yn rhad ac am ddim – Ennill y Cytundeb – a fydd yn eich helpu i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn gwneud cynnig llwyddiannus ar gyfer cytundebau sector gyhoeddus. Gallwch ganfod mwy ar arweiniad Business Link ynglŷn â gwerthu i'r llywodraeth: www.businesslink.gov.uk/winningthecontract

I ganfod mwy, gweler arweiniad Business Link ynglŷn â sut i ganfod cyfleoedd y Llywodraeth, tendrau a chontractau ar y Canfyddwr Contractau: http://www.businesslink.gov.uk/contractsfinder-supplierguide

Dyddiadur y Cyflogwr

Hydref2011

1 Cyfraddau Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn cynyddu o'r diwrnod hwn.

19 Dylai taliadau siec ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Hydref gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

Dylai taliad siec o'ch Cytundeb Setliad TWE ar gyfer 2010-11 (os o gwbwl) gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

21 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Hydref fod wedi clirio yng nghyfrif banc CThEM erbyn y dyddiad hwn.

Dylai taliad electronig o'ch Cytundeb Setliad TWE ar gyfer 2010-11 (os o gwbwl) fod wedi clirio yng nghyfrif banc CThEM erbyn y dyddiad hwn.

Tachwedd2011

2 Ffurflenni P46(Car) ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 5 Hydref i'n cyrraedd erbyn y dyddiad hwn.

19 Dylai taliadau siec ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Tachwedd gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

22 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Tachwedd fod wedi clirio yn ein cyfrif banc erbyn y dyddiad hwn.

Rhagfyr2011

19 Dylai taliadau siec ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Rhagfyr gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

22 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Rhagfyr fod wedi clirio yng nghyfrif banc CThEM erbyn y dyddiad hwn.

diwedd Os ydych yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth Cwmnïau Gwasanaeth IR35, rydym yn argymell i chi ddechrau paratoi eich ffurflenni P14 ar gyfer 2010-11 os oes raid i chi roi cyfrif am daliad mantoli tybiannol erbyn 31 Ionawr.

Dyddiadur y Cyflogwr

Ionawr2012

19 Dylai taliadau siec ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Ionawr gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

21 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Ionawr fod wedi clirio yng nghyfrif banc CThEM erbyn y dyddiad hwn.

diwedd Cofrestrwch i gyflwyno'ch Datganiad TWE 2011-12 ar-lein. Gallwch gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ar unrhyw adeg ond argymhellwn i chi gofrestru'n gynnar.

Chwefror2012

2 Ffurflenni P46(Car) ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 5 Ionawr i'n cyrraedd erbyn y dyddiad hwn.

Canol Chwefror i Ganol Mawrth: Dylech ddisgwyl derbyn eich hysbysiad i gyflwyno eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) ar gyfer 2011-12.

19 Dylai taliadau siec ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Mawrth gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

22 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Chwefror fod wedi clirio yn ein cyfrif banc erbyn y dyddiad hwn.

Dylech ddisgwyl eich: Meddalwedd a chyfarwyddiadau wedi'u diweddaru gan eich darparwr os ydych yn defnyddio pecyn y gyflogres.

Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

Llinell Gymorth – cyngor teleffon a Llinell Archebu – archebwch eich ffurflenni ac arweiniad.

Efallai y caiff galwadau eu monitro at ddibenion hyfforddi a rheoli ansawdd

I gael mynediad at ystod eang o wybodaeth cyflogwyr ar amser cyfleus ar eich cyfer chi, ewch i'r tudalennau Cyflogwyr ar ein gwefan yn www.businesslink.gov.uk/paye

Materion cyflogres cyffredinol – er enghraifft TWE, CYG a chredydau treth

Canolfan Gyswllt Gymraeg	**0845 302 1489**	Llun-Gwener 8.30am-5pm Bydd peiriant ateb ar gael y tu allan i'r oriau hyn.
Ffacs	**01766 516100**	
Canllawiau		
Gwefan	www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm	

*Ar gyfer cyflogwyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ac sydd ag offer arbennig fel Minicnom, mae'r cyfleuster **Ffôn Testun** ar gael ar **08456 021 380**.

Gwasanaeth Saesneg yn unig a geir ar y rhifau isod

Cynllun Diwydiant Adeiladu (CIS)		
Llinell Gymorth CIS	**08453 667 899**	7 diwrnod yr wythnos 8am-8pm
Minicom	**08453 667 894**	
CYG: Pynciau Arbennig		
Llinell Gymorth a Llinell Archebu Pensiynau wedi'u contractio allan	**08459 150 150**	Llun-Gwener 8am-5pm
Llinell Gymorth a Llinell Archebu ar gyfer pobl dibreswyl yn y DU	**08459 154 811**	Llun-Gwener 8am-5pm
Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW)		
Llinell Gymorth	**08456 000 678**	Llun-Gwener 9am-5pm
Llinell Archebu	**08458 450 360**	7 diwrnod yr wythnos 24 awr
Llinellau Cymorth Eraill		
Desg Gymorth Gwasanaethau Ar-lein CThEM*	*gan gynnwys cefnogaeth dechnegol ynghylch CD-ROM y Cyflogwr	
Llinell Gymorth	**08456 055 999**	7 diwrnod yr wythnos 8am-8pm
e-bost	helpdesk@ir-efile.gov.uk	
Ymholiadau ynglŷn â thaliadau TWE/Hunanasesiad	**08453 667 816**	Llun-Gwener 8am-8pm Sadwrn 8am-4pm